

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a  
Llywodraeth Leol

**Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y  
BBC**

**Mawrth 2016**

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:  
**[www.cynulliad.cymru](http://www.cynulliad.cymru)**

Gellir cael rhagor o gopïau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopïau caled gan:

Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol  
Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
Bae Caerdydd  
CF99 1NA

Ffôn: 0300 200 6565

E-bost: [SeneddCCLIL@Cynulliad.Cymru](mailto:SeneddCCLIL@Cynulliad.Cymru)

Twitter: [@SeneddCCLIL](https://twitter.com/SeneddCCLIL)

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2016

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

**Cynulliad Cenedlaethol Cymru**  
Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a  
Llywodraeth Leol

**Ymchwiliad i'r Adolygiad o Siarter y  
BBC**

Mawrth 2016

Cynulliad  
Cenedlaethol  
Cymru

National  
Assembly for  
Wales



# Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol

Sefydlwyd y Pwyllgor ar 22 Mehefin 2011. Ei gyloch gwaith yw archwilio deddfwriaeth a dwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif drwy graffu ar faterion yn ymwneud â gwariant, gweinyddiaeth a pholisi sy'n cynnwys: diwylliant, ieithoedd, cymunedau a threftadaeth Cymru, gan gynnwys chwaraeon a'r celfyddydau; llywodraeth leol yng Nghymru, gan gynnwys materion tai; a chyfleoedd cyfartal i bawb.

---

## Aelodau cyfredol y Pwyllgor



**Christine Chapman**  
(Cadeirydd)  
Llafur Cymru  
Cwm Cynon



**Peter Black**  
Democratiaid Rhyddfrydol Cymru  
Gorllewin De Cymru



**Alun Davies**  
Llafur Cymru  
Blaenau Gwent



**Janet Finch-Saunders**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Aberconwy



**Mike Hedges**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Abertawe



**Mark Isherwood**  
Ceidwadwyr Cymreig  
Gogledd Cymru



**Bethan Jenkins**  
Plaid Cymru  
Gorllewin De Cymru



**Gwyn Price**  
Llafur Cymru  
Islwyn



**Gwenda Thomas**  
Llafur Cymru  
Castell-nedd



**Lindsay Whittle**  
Plaid Cymru  
Dwyrain De Cymru

---

Roedd yr Aelod a Ganlyn yn bresennol fel dirprwy aelod oir Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn



**John Griffiths**  
Llafur Cymru  
Dwyrain Casnewydd

# Cynnwys

---

<b>Casgliadau ac argymhellion.....</b>	<b>3</b>
<b>1. Y cefndir.....</b>	<b>6</b>
Y Siarter .....	6
Perthnasedd y Siarter bresennol i Gymru.....	6
Cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig .....	7
<b>2. Dibenion cyhoeddus a rychwant y BBC .....</b>	<b>9</b>
Dibenion cyhoeddus.....	9
Rychwant gweithgareddau'r BBC yng Nghymru .....	11
Adolygiad annibynnol ar gyfer Cymru .....	12
Ein barn ni .....	13
<b>3. Allbwn y BBC mewn perthynas â Chymru.....</b>	<b>16</b>
Portreadu .....	17
Comisiynu.....	19
Cwotâu .....	21
Ein barn ni .....	22
<b>4. Cyllid y BBC.....</b>	<b>24</b>
Y lefelau cyllido nawr ac yn y dyfodol.....	24
Ffi'r drwydded.....	26
Trwyddedau gwasanaethau .....	28
Ein barn ni .....	28
<b>5. Llywodraethiant ac atebolrwydd.....</b>	<b>30</b>
Llywodraethiant.....	30
Atebolrwydd.....	34
Ein barn ni .....	35
<b>6. S4C .....</b>	<b>38</b>
Cyllid .....	38
Llywodraethiant, atebolrwydd a chysylltiadau gweithredol â'r BBC .....	41

Cylch gorchwyl a pherfformiad .....	42
Ein barn ni .....	43
<b>Atodiad: Ein hymchwiliad .....</b>	<b>45</b>
Cylch gorchwyl.....	45
Dull gweithredu.....	45

## Casgliadau ac argymhellion

---

**Argymhelliad 1.** Rydym yn argymell y dylid cryfhau'r datganiad ynglŷn â dibenion cyhoeddus y BBC i sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu anghenion y Deyrnas Unedig, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau. (Tudalen 14)

**Argymhelliad 2.** Rydym yn argymell y dylai Llywodraeth nesaf Cymru fynd ati ar fyrder i sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol i Gymru. Dylai rôl y fforwm gynnwys, ymysg pethau eraill, adolygu, monitro a chloriannu darpariaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru a rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru. Dylai ddefnyddio arbenigedd ar draws sectorau'r cyfryngau a'r byd academiaidd. (Tudalen 15)

**Argymhelliad 3.** Rydym yn argymell y dylai'r BBC ddatblygu targedau penodol a mesuradwy ar gyfer portreadu Cymru yn ei raglenni rhwydwaith. Dylai gyflwyno adroddiad yn flynyddol ar y cynnydd yn erbyn y targedau hyn (gweler argymhelliad 7). (Tudalen 23)

**Argymhelliad 4.** Rydym yn argymell y dylai'r BBC roi trefniadau ar waith i ddatganoli ei waith comisiynu i sicrhau bod comisiynwyr rhwydwaith ar gyfer y cenhedloedd a'r rhanbarthau wedi'u lleoli yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau hynny. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 5.** Rydym yn argymell y dylai'r BBC ddatganoli cyfran fwy o gyllid y rhwydwaith i gomisiynwyr yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau fel ffordd o gynyddu ystod ac amrywiaeth yr allbwn, yn lleol ac ar gyfer y rhwydwaith. (Tudalen 23)

**Argymhelliad 6.** Rydym yn argymell y dylai'r BBC fuddsoddi £30 miliwn yn ychwanegol yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer Cymru. (Tudalen 29)

**Argymhelliad 7.** Rydym yn argymell y dylai'r BBC gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Cynulliad ar ei allbynnau a'i weithrediadau sy'n berthnasol i Gymru, a darparu datganiad archwiliedig o gyfrifon. (Tudalen 36)

**Argymhelliad 8.** Rydym yn argymell y dylai'r BBC ymddangos gerbron pwyllgorau'r Cynulliad ynglŷn â materion sy'n berthnasol i Gymru. (Tudalen 37)

**Argymhelliad 9.** Rydym yn argymell y dylai'r pumed Cynulliad benderfynu sefydlu pwyllgor ar gyfathrebu. Byddai'r pwyllgor hwn yn sicrhau bod y BBC a sefydliadau eraill yn y cyfryngau sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu dwyn i gyfrif yn gyhoeddus ynglŷn â chyflawni eu cyfrifoldebau a'u hymrwymadau i Gymru. (Tudalen 37)

**Argymhelliad 10.** Fel rhan o adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o gylch gorchwyl, llywodraethiant a chyllid S4C, rydym yn argymell y dylai anghenion ariannol ariannu S4C yn y dyfodol gael eu hystyried ar sail eu teilyngdod eu hunain, ar wahân i ddarpariaeth gwasanaethau cyffredinol y BBC ar gyfer Cymru. (Tudalen 44)

**Argymhelliad 11.** Rydym yn argymell y dylai llinellau atebolrwydd rhwng S4C a'r Cynulliad gael eu ffurfioli drwy gytundeb a fydd yn rhwymo S4C i gyflwyno adroddiadau blynyddol a chyfrifon archwiledig i'r Cynulliad, ac i ymddangos gerbron pwyllgorau Cynulliad. (Tudalen 44)




# Gwariant Allgynnyrch BBC Cymru



Cynulliad Cenedlaethol Cymru  
National Assembly for Wales  
Y Gwasanaeth Ymchwil

## Gwariant Allgynnyrch BBC Cymru 2006-07 a 2014-15

### Gwariant Teledu BBC Cymru (Teledu Saesneg) rhwng 2006-07 a 2014-15



## Perfformiad y BBC gyfan yng Nghymru 2014-15

	Cyrrhaeddiad Wythnosol Ar Gyfartaledd* (%)		Amser cyfartalog fesul gwylwr/gwrandawr yr wythnos (oo:mm)		Ansawdd**	
	UK	Wales	UK	Wales	UK	Wales
BBC Gyfan	97	98	18:10	19:25	6.97 (AG)	7.08 (AG)
Holl Deledu'r BBC	82	85	10:15	12:00	81.1 (MG)	81.6 (MG)
Holl Radio'r BBC	65	76	15:40	16:25	80.3 (MG)	82.8 (MG)

\*% y boblogaeth sy'n defnyddio gwasanaethau'r BBC, gan gynnwys teledu, radio a gwasanaethau ar-lein.  
 \*\*AG = Argraff gyffredinol: Yn seiliedig ar werthfawrogiad o'r BBC yn gyffredinol. Arolwg wedi'i sgorio allan o 10 (1 = Eithriadol o anffafriol; 10 = eithriadol o ffafriol).  
 MG=Mynegrif Gwerthfawrogi: Arolwg wedi'i sgorio allan o 10 (1 = Eithriadol o anffafriol; 10 = eithriadol o ffafriol). Y confensiwn yw lluosgi â 10 i roi cofnod allan o 100

## Cyllid S4C 2006-07 a 2014-15



Yr Adran dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon

Ymddiriedolaeth y BBC

# 1. Y cefndir

---

## Y Siarter

1. Y [Siarter Frenhinol](#) yw sail gyfansoddiadol y BBC. Mae'n gwarantu annibyniaeth y BBC ar y llywodraeth, mae'n nodi rolau penodol Gweithrediaeth y BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC, ac mae'n darparu bod y BBC i'w ariannu drwy refeniw o ffi trwydded.
2. Rhedodd y Siarter gyntaf rhwng 1 Ionawr 1927 a 31 Rhagfyr 1936. Ers hynny, cafwyd Siarter newydd bob rhyw ddeng mlynedd.
3. O dan y Siarter bresennol, prif amcan y BBC yw hybu ei chwe diben cyhoeddus:
  - cynnal dinasyddiaeth a'r gymdeithas ddinesig;
  - hybu addysg a dysgu;
  - symbylu creadigrwydd a rhagoriaeth ddiwylliannol;
  - cynrychioli'r Deyrnas Unedig, ei chenedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau;
  - dod â'r Deyrnas Unedig i'r byd a'r byd i'r Deyrnas Unedig;
  - gwireddu manteision technolegau cyfathrebu sy'n dechrau dod i'r amlwg.
4. Ochr yn ochr â'r Siarter, ceir [Cytundeb](#) â Llywodraeth y Deyrnas Unedig, sy'n manylu ar lawer o'r pynciau a amlinellir yn y Siarter.
5. Daw'r Siarter bresennol i ben ar 31 Rhagfyr 2016. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dechrau proses adolygu cyn cytuno ar Siarter newydd ar gyfer y deng mlynedd nesaf.

## Perthnasedd y Siarter bresennol i Gymru

6. Fel rhan o ddyletswydd y BBC o gynrychioli'r cenedloedd, mae'r Cytundeb yn esbonio:
  - y dylai'r BBC adlewyrchu a chryfhau hunaniaethau diwylliannol drwy gyfrwng cynnwys gwreiddiol ar lefel leol, ranbarthol a chenedlaethol;
  - y dylai'r BBC hybu ymwybyddiaeth o ddiwylliannau a safbwyntiau gwahanol sy'n adlewyrchu bywydau pobl wahanol a chymunedau gwahanol yn y Deyrnas Unedig;

- y dylai'r BBC roi sylw i bwysigrwydd darpariaeth briodol mewn ieithoedd lleiafrifol.

7. Dylai Ymddiriedolaeth y BBC, yn rhinwedd ei swydd fel gwarcheidwad y modd y mae ffi'r drwydded yn cael ei gwario, sicrhau yn benodol:

- bod digon o amser yn cael ei ddyrannu ar BBC One a BBC Two i'r hyn y mae'n ymddangos ei fod yn ystod addas o raglenni sydd o ddiddordeb i Gymru;

- bod y rhaglenni hynny o ansawdd uchel a bod cyfran addas ohonynt wedi eu gwneud yng Nghymru;

- bod yna raglen newyddion reolaidd ar gyfer Cymru ar BBC One, gan gynnwys ar adegau gwyllo brig;

- bod nifer addas o oriau o raglenni heblaw newyddion yn cael ei ddarparu i Gymru.

8. Cynrychiolir Cymru ar Ymddiriedolaeth y BBC gan Ymddiriedolwr y BBC ar gyfer Cymru (Elan Closs Stephens). Mae'r Ymddiriedolwr yn cadeirio Cyngor Cynulleidfa Cymru, sy'n craffu ar berfformiad a gwasanaethau'r BBC yng Nghymru ac yn cyngori'r Ymddiriedolaeth ar hyn.

9. Mae gan Ofcom hefyd nifer o gyfrifoldebau rheoleiddio sy'n berthnasol i'r BBC. Mae'r cyfrifoldebau allweddol yn cynnwys rheoleiddio'r cynnwys a ddarlledir, ymdrin â chwynion, ymgynghori ar bennu cwotâu, a'i rôl o ran asesiadau effaith farchnad.

### **Cynigion Llywodraeth y Deyrnas Unedig**

10. Ar 16 Gorffennaf 2015, cyhoeddodd Adran Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon (DCMS) Llywodraeth y Deyrnas Unedig ymgynghoriad ar Bapur Gwyrdd<sup>1</sup> er mwyn dechrau trafodaeth ar ddyfodol y BBC. Parhaodd yr ymgynghoriad am 12 wythnos a bu'n agored i'r cyhoedd, yn ogystal ag arbenigwyr yn y diwydiant. Wrth lansio'r ymgynghoriad, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, John Whittingdale AS:

“Everyone must be able to have their say on how well they think that [sef arian o ffi'r drwydded] money is spent. This consultation gives them that opportunity. It also invites them to comment on how the BBC is governed.”<sup>2</sup>

---

<sup>1</sup> [Adolygiad Siarter y BBC: Ymgynghoriad Cyhoeddus](#)

<sup>2</sup> [Hysbysiad i'r Wasg: Government begins debate of future of the BBC](#)

11. Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi pedwar mater eang y mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dymuno eu hystyried cyn i'r Siarter ddod i ben ym mis Rhagfyr 2016:

- i. dibenion cyhoeddus y BBC: a yw'r rhain yn dal yn berthnasol, ac a ddylai'r Siarter roi "mwy o gyfeiriad" i'r BBC drwy amlinellu "cenhadaeth sydd wedi'i thargedu'n fwy manwl-gywir";
- ii. graddfa a chwmpas y BBC: fel y darlledwr gwasanaeth cyhoeddus mwyaf yn y byd, a yw'r ystod o ddarpariaeth yn rhoi'r gwasanaeth gorau i'r sawl sy'n talu ffi'r drwydded, a pha effaith y mae graddfa'r BBC yn ei chreu ar y sector masnachol;
- iii. sut mae'r BBC yn cael ei ariannu: a ddylai hynny fod drwy ffi drwydded ddiwygiedig; ardoll ar aelwydydd; neu fodel hybrid. Yn y tymor hirach, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn dweud y bydd yn edrych ar y posibilrwydd o gyflwyno taliadau tanysgrifio;
- iv. trefniadau llywodraethiant ac atebolrwydd y BBC: diwygio Ymddiriedolaeth y BBC, drwy gyfrwng model Ymddiriedolaeth diwygiedig; drwy fwrdd unedol gyda chorff goruchwyllo ar wahân; neu drwy symud tuag at reoleiddio mwy allanol trwy Ofcom.

12. I ategu adolygiad y Siarter, mae'r DCMS wedi [penodi grŵp o arbenigwyr ar y diwydiant](#) i roi cyngor i Lywodraeth y Deyrnas Unedig. Does dim cynrychiolaeth benodol o Gymru ar y grŵp hwn.

## 2. Dibenion cyhoeddus a rhychwant y BBC

---

13. Fel rhan o'i hymgyngoriad ar y Siarter, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi gofyn a yw dibenion cyhoeddus y BBC yn dal yn berthnasol, ac a yw ystod bresennol gweithgareddau'r BBC yn rhoi'r gwasanaeth gorau i'r sawl sy'n talu ffi'r drwydded.

### Dibenion cyhoeddus

14. Mae'r Siarter bresennol yn rhwymo'r BBC i "gynrychioli'r Deyrnas Unedig, ei chenedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau". Clywsom dystiolaeth gan nifer o ymatebwyr a oedd yn credu y dylai'r geiriad hwn gael ei ddiwygio.

15. Dywedodd Ymddiriedolaeth y BBC wrthon ni eu bod o blaid cryfhau'r geiriad drwy rwymo'r BBC i ddarparu "content to meet the needs of the UK's nations, regions and communities", er mwyn gwneud y ddyletswydd i adlewyrchu'r Deyrnas Unedig gyfan yng ngwasanaethau'r BBC yn ofyniad mwy penodol o dan y Siarter Frenhinol nesaf.

16. Dywedodd y byddai hyn yn adeiladu ar "the major BBC initiatives which the Trust has instigated and supported during this Charter period to improve the way in which the BBC portrays and serves Wales and the other nations and regions of the UK."<sup>3</sup> Dywedodd hefyd y byddai hyn yn galluogi'r Ymddiriedolaeth i ddyfeisio dulliau i fesur cynrychiolaeth y cenedloedd, ac i ddefnyddio'r rheini er mwyn dwyn rheolwyr y BBC i gyfrif yn well.

17. Roedd Gweithrediaeth y BBC yn cefnogi'r newid a gynigiwyd gan yr Ymddiriedolaeth. Dywedodd y Cyfarwyddwr Cyffredinol, Yr Arglwydd Hall, wrthon ni:

"Increasingly, as others move away from representing Wales to Wales or Wales to the whole of the UK, I think to have a public purpose that clearly defines that for the BBC is really welcome and important."<sup>4</sup>

18. Cytunodd y Dr Ruth McElroy fod angen "a very precise sense of commitment to serving the nations and regions in the public purposes of the

---

<sup>3</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 08

<sup>4</sup> Cofnod y Trafodion, para 610, 26 Tachwedd 2015 (*mae pob cyfeiriad at Gofnod y Trafodion yn gyfeiriad at drafodion y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol*)

BBC.” Roedd yn teimlo nad oedd yn glir bod y BBC yn cyflawni ei holl ddibenion yn gyfartal ar hyn o bryd.<sup>5</sup>

19. Yn yr un modd, teimlai Teledwyr Annibynnol Cymru (TAC) fod buddsoddiad y BBC mewn cyfleusterau dramâu yng Nghymru (yn enwedig yng nghaerdydd) i’w groesawu, ond nad oedd y buddsoddiad ynddo’i hun yn gwireddu “the BBC’s public purpose of ‘representing the UK, its nations regions and communities’”.

20. Ar ben hynny, clywsom gan Gynghrair y Cynhyrchwyr Sinema a Theledu (PACT):

“(…) a key part of the BBC’s public purposes is to make sure that the investments it makes are not only about spending money in Roath Lock, but actually developing the creative talents, so that product, ideas and creativity from across the nations of the UK are represented to everyone else across the UK.”<sup>6</sup>

21. Roedd Equity yn cytuno y dylai dibenion cyhoeddus y BBC adlewyrchu ei ymrwymiad i fuddsoddiadau ac i raglenni yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau, yn ogystal â'i ymrwymiad i amrywiaeth ar y sgrin sy'n adlewyrchu'r Brydain fodern.<sup>7</sup>

22. Yn fwy cyffredinol, galwodd yr Athro Tom O'Malley am gael Deddf Seneddol yn lle Siarter y BBC. Dadleuai fod Siarter yn gadael “power in the hands of the Westminster government, not Parliament”, a bod hynny'n caniatáu ar gyfer “opaque policy formulation and decision by, in effect, decree”.

23. Yn ei farn ef:

“A statute which safeguards the creative and editorial independence of the BBC, but which was renewed periodically under close Parliamentary scrutiny is arguably the best way of ensuring a more democratic approach to policy making, one which would give more opportunities for the voice of Wales to be heard.”<sup>8</sup>

24. Honnodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg nad oedd y BBC yn gweld cryfhau'r Gymraeg a'i chymunedau fel rhan o'i swyddogaeth neu ei ddiben. Dywedodd y Gymdeithas y dylid sefydlu darlledwr aml-lwyfan Cymraeg

---

<sup>5</sup> Cofnod y Trafodion, para 365, 18 Tachwedd 2015

<sup>6</sup> Cofnod y Trafodion, para 175, 12 Tachwedd 2015

<sup>7</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 04

<sup>8</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 01

newydd i gynyddu'r defnydd ar yr iaith. I ategu'r cynnig hwn, yr awgrymodd y Gymdeithas y gallai gael ei ariannu drwy ardoll arfaethedig ar sefydliadau mawr yn y cyfryngau, dywedwyd bod ecosystem cyfryngau amrywiol yn hanfodol i ddyfodol y Gymraeg.<sup>9</sup>

### **Rhychwant gweithgareddau'r BBC yng Nghymru**

25. Mae'r tystion yn gyffredinol yn tynnu sylw at bwysigrwydd y BBC i Gymru fel darparwr cynnwys yn unswydd i Gymru, o gofio methiannau'r farchnad mewn rhannau eraill o'r cyfryngau Cymreig.

26. Cyflwynodd nifer o dystion sylwadau ar effaith ddiwylliannol sylweddol y BBC, a darlledu yn gyffredinol, yn enwedig o ran y Gymraeg. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg:

“Rhan annatod o ddiwylliant y Deyrnas Gyfunol yw'r iaith Gymraeg ac mae'n hanfodol i'r iaith bod ei phresenoldeb ar wahanol lwyfannau darlledu cyhoeddus ym Mhrydain yn parhau a chynyddu. Mae'r ystod eang o gynnwys cyfrwng Cymraeg safonol a ddarperir gan y BBC ac S4C yn hanfodol ar gyfer dyfodol a ffyniant yr iaith Gymraeg.”<sup>10</sup>

27. A dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru:

“O ran ei chyfraith, ei chymdeithas, ei diwylliant, ei hunigolion a'i chymunedau, mae Cymru'n wlad ddwyieithog. Y Gymraeg yn anad dim sy'n gwneud Cymru'n unigryw. (...)

“Rhaid i BBC Cymru ac S4C amddiffyn a hyrwyddo'n egniol hawl pobl i archwilio eu diwylliant a'u creadigrwydd eu hunain drwy eu dewis iaith. Mewn byd sy'n gynyddol ryngwladol, rydym yn ystyried y Gymraeg, a'r Saesneg hithau, yn nodwedd ddinesig sylfaenol yn ogystal â diwylliant a etifeddir.”<sup>11</sup>

28. Cyfeiriodd tystion eraill at y manteision economaidd i Gymru a oedd yn deillio o ddarlledu. Tynnodd Ymddiriedolaeth y BBC sylw at gyfraniad economaidd y BBC i Gymru:

“mae'r BBC yng Nghymru yn gwario £154m ar raglenni sydd naill ai wedi cael eu cynhyrchu gan BBC Cymru neu gan gynhyrchwyr annibynnol, 60% ar wasanaethau pwrpasol BBC Cymru i Gymru a 40% ar raglenni ar gyfer teledu rhwydwaith. Yn 2014-15, roedd gwariant

---

<sup>9</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 14

<sup>10</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 06

<sup>11</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 10

uniongyrchol BBC Cymru gyda chyflenwyr a chynhyrchwyr allanol tua £50 miliwn ar gynyrchiadau annibynnol, artistiaid, cyfleusterau ac ati.

“Y tro diwethaf i Deloitte fesur effaith economaidd gweithgareddau'r BBC yn y DU yn 2013, roedd yn amcangyfrif bod Gwerth Ychwanegol Gros ei weithgareddau yng Nghymru yn £276 miliwn. Mae hyn yn golygu bod effaith bob punt y mae'r BBC yn ei gwario yng Nghymru bron ddwywaith yn fwy.”<sup>12</sup>

29. Cyfeiriodd Equity hefyd at rôl “holl-bwysig” y BBC yn economi Cymru, gan ddweud ei fod yn “standard bearer for the audio-visual sector in terms of quality, diversity, and innovation.” Dadleuai Equity: “without the BBC’s investment and commissioning, the UK’s production base, which also serves the UK film industry, would not be as strong as it is today.”<sup>13</sup>

### **Adolygiad annibynnol ar gyfer Cymru**

30. Ar wahân, mae Llywodraeth Cymru wedi galw am adolygiad brys, annibynnol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru, gyda ffocws clir ar ddibenion cyhoeddus y BBC yng Nghymru yn enwedig o ran ei ddarpariaeth ar gyfer cynulleidfaoedd Cymru a'i bortread o Gymru. Awgrymwyd y gallai'r adolygiad fod yn sail i “gontract” newydd i Gymru yn y Siarter. Dadleuai'r Dirprwy Weinidog:

“The role of the principal Public Service Broadcaster must be informed by a clear understanding of the needs of the people in the nations and regions of the UK. However, following extensive devolution of powers to the devolved governments, there has been no evaluation or assessment of whether current public service obligations remain fit-for-purpose. Over the same time period those obligations have been allowed to erode, largely for commercial reasons.

“This assessment is now urgently needed and should be done in parallel with the Charter review, to inform any targets for delivery of services in the nations and regions that might be included in the new Charter, linked to a renewed set of public purposes and values.”<sup>14</sup>

---

<sup>12</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 08

<sup>13</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 04

<sup>14</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 15



31. Er nad oedd y tystion yn anghytuno â'r angen am adolygiad o'r fath, roedd rhai yn amau'r amseru.<sup>15</sup> Cafwyd rhywfaint o feirniadu hefyd ynghylch "how the Welsh Government has equipped itself to speak about media issues in Wales".<sup>16</sup> Dyma fater yr ydym wedi gwneud sylwadau arno yn y gorffennol, wrth argymhell yn 2012 y dylai Llywodraeth Cymru sefydlu fforwm annibynnol i gynghori ar bolisi mewn perthynas â'r cyfryngau yng Nghymru.<sup>17</sup> Cafodd yr argymhelliad ei wrthod ond wedyn sefydlodd Llywodraeth Cymru Banel Cynghori ar Ddarlledu ar ffurf Grŵp Gorchwyl a Gorffen, o dan gadeiryddiaeth Cadeirydd Panel Sector y Diwydiannau Creadigol.

32. Clywsom na fu gwaith y Panel yn agored i'r cyhoedd er bod ei gyngor "eisoes wedi ychwanegu gwerth sylweddol" i waith Llywodraeth Cymru ar faterion darlledu. Clywsom fod y Sefydliad Materion Cymreig wedi gorfod defnyddio cais rhyddid gwybodaeth er mwyn cael gwybod am ei weithgareddau.<sup>18</sup>

33. Cydnabu'r Dirprwy Weinidog y gallai fod angen ailsefydlu ei Banel Cynghori ar Ddarlledu, pe na bai Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnal adolygiad annibynnol.<sup>19</sup>

### **Ein barn ni**

34. Mae gan y BBC safle sy'n unigryw yng Nghymru o ran ei bwysigrwydd. Mae cynulleidfaoedd Cymru yn defnyddio cyfran fwy o wasanaethau'r BBC na'r cynulleidfaoedd yng nghaneddloedd a rhanbarthau eraill y Deyrnas Unedig. Hefyd, mae diffyg lluosogrwydd yn y cyfryngau yng Nghymru yn golygu bod y cyhoedd yng Nghymru yn ddibynnol ar y BBC i raddau mwy nag yng ngweddill y Deyrnas Unedig, yn enwedig o ran newyddion a materion cyfoes.

35. O gofio'r sefyllfa unigryw hon, mae'n ddyletswydd ar y BBC i sicrhau bod ei allbwn yn adlewyrchu amrywiaeth bywyd a diwylliant Cymru. Yn hyn o beth rydym yn credu bod y BBC wedi methu cyflawni ei rwymedigaethau.

36. Mae'r dirywiad sylweddol o ran buddsoddiad y BBC mewn rhaglenni Saesneg dros y deng mlynedd diwethaf wedi arwain at lai o oriau o raglenni sy'n benodol i Gymru ac amserlen sydd wedi methu cynnig disgrifiad ac archwiliad digonol o fywydau a phrofiadau cymunedau Cymru, nac o'r newid

---

<sup>15</sup> Cofnod y Trafodion, para 271, 18 Tachwedd 2015

<sup>16</sup> Cofnod y Trafodion, para 300, 18 Tachwedd 2015

<sup>17</sup> [Ymchwiliad i'r Rhagolygon ar gyfer dyfodol y cyfryngau yng Nghymru](#)

<sup>18</sup> Cofnod y Trafodion, para 300, 18 Tachwedd 2015

<sup>19</sup> Cofnod y Trafodion, para 19, 18 Tachwedd 2015

yn y tirlun gwleidyddol yn sgil datganoli. Ar ben hynny, mae'r dirywiad hwn yn y buddsoddiadau wedi bod yn fwy difrifol yng Nghymru na chenhedloedd eraill y Deyrnas Unedig. Er bod Gweithrediaeth y BBC yn cydnabod y diffygion hyn yn gyhoeddus ers tro byd, nid yw'n ymddangos ei bod wedi gwneud fawr ddim i fynd i'r afael â hwy.

37. Rydym o'r farn y dylai diben cyhoeddus y BBC o "gynrychioli'r Deyrnas Unedig, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau" gael ei gryfhau. Rydym yn cefnogi'r awgrymiadau a wnaed gan Ymddiriedolaeth y BBC y dylai'r dibenion cyhoeddus gael eu diwygio i fynegi'n gliriach y ddyletswydd i "adlewyrchu, cynrychioli a gwasanaethu pawb yn y Deyrnas Unedig" yng ngwasanaethau'r BBC, gan sicrhau ei fod yn darparu cynnwys sy'n ateb anghenion cenhedloedd, rhanbarthau a chymunedau'r Deyrnas Unedig. Rydym yn cytuno y bydd hyn yn sbardun i greu mecanweithiau ar gyfer mesur cynrychiolaeth yn well a dwyn y Weithrediaeth i gyfrif yn well.

**Rydym yn argymhell y dylid cryfhau'r datganiad ynglŷn â dibenion cyhoeddus y BBC i sicrhau bod y BBC yn adlewyrchu, yn cynrychioli ac yn gwasanaethu anghenion y Deyrnas Unedig, ei chenhedloedd, ei rhanbarthau a'i chymunedau.**

#### *Rôl Llywodraeth Cymru*

38. Er nad ydym yn anghytuno â galwad Llywodraeth Cymru am adolygiad annibynnol o ddarlledu gwasanaeth cyhoeddus yng Nghymru ac y dylai adolygiad o'r fath hoelio sylw ar ddibenion cyhoeddus y BBC yng Nghymru, rydym yn credu y dylai'r alwad hon fod wedi cael ei gwneud yn gynt. O gofio bod y Siarter yn dod i ben ar ddiwedd 2016, mae'n ymddangos bod adolygiad o'r fath yn annhebygol ar hyn o bryd.

39. Yn 2012, gwnaethom sylwadau ar dystiolaeth a gawsom ynghylch capasiti Llywodraeth Cymru i ymdrin â pholisi cyfryngau. Rydym yn dal o'r farn y dylai Llywodraeth Cymru fuddsoddi mewn mwy o gapasiti yn y maes hwn, yn enwedig o gofio pwysigrwydd diwylliannol ac economaidd sector y cyfryngau i Gymru.

40. Ar ben hynny, rydym yn nodi bod Panel Cyngori Llywodraeth Cymru ar Ddarlledu wedi argymhell yn 2014 y dylid creu Cyngor Cyfryngau Gwasanaeth Cyhoeddus newydd i Gymru i oruchwylio'r cyfryngau yng Nghymru. Rydym yn cefnogi'r argymhelliad hwn.

**Rydym yn argymhell y dylai Llywodraeth nesaf Cymru fynd ati ar fyrder i sefydlu fforwm cyfryngau annibynnol i Gymru. Dylai rôl y fforwm gynnwys, ymysg pethau eraill, adolygu, monitro a chloriannu darpariaeth Darlledu Gwasanaeth Cyhoeddus yng Nghymru a rhoi cyngor arbenigol i Lywodraeth Cymru. Dylai ddefnyddio arbenigedd ar draws sectorau'r cyfryngau a'r byd academiaidd.**

### 3. Allbwn y BBC mewn perthynas â Chymru

---

41. Clywsom fod gostyngiad o 15 y cant wedi bod, dros cyfnod y Siarter bresennol, yn nifer yr oriau a gynhrychir gan BBC Cymru Wales, a gostyngiad o 32 y cant yn ei wariant ar raglenni Saesneg eu hiaith. Yn benodol, yn ei adroddiad yn 2014-15, dywedodd Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC fod allbwn y BBC yng Nghymru "ar ymyl y dibyn".

42. O ran gwasanaethau darlledu Cymru'n fwy cyffredinol, mae'r IWA wedi dweud hyn: "the reduction in spend on broadcast services for Wales has been steeper than in Scotland or Northern Ireland".<sup>20</sup> Nododd yr IWA hefyd:

"The total spend by BBC and ITV on English language television output for Wales has declined consistently since 2002 and accelerated after BBC Wales passed its peak spend of £26.8m in 2005-06."<sup>21</sup>

43. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wedi cydnabod bod rhaglenni teledu Saesneg eu hiaith yng Nghymru "wedi erydu" ac "yn dirywio ers degawd bron".<sup>22</sup> Ar ben hynny, mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi derbyn: "there can still be periods where specific representation of some nations and regions does not occur", a hefyd "representation of the devolved nations is a key issue that needs to be resolved as part of Charter Review".<sup>23</sup>

44. Clywsom dystiolaeth am effeithiau cymdeithasol a diwylliannol ehangach y dirywiad yng ngwasanaethau'r BBC i Gymru. Dywedodd Cyngor Celfyddydau Cymru fod dirywiad wedi bod o ran gallu BBC Cymru Wales i ddarparu arlwy diwylliannol i Gymru yn y blynyddoedd diwethaf, gan ddweud nad oedd prin ddim celfyddydau, diwylliant a drama Cymreig, yn enwedig ar y teledu.<sup>24</sup>

45. Dywedodd y Dr John Geraint wrthon ni fod diffyg allbwn y BBC ar gyfer Cymru wedi cael ei leihau "by BBC mandarins to a zero-sum game", ac na allai'r diffyg gael ei gywiro heblaw drwy ragor o arian i Gymru ar draul gwasanaethau craidd eraill. Aeth ymlaen i ddweud:

"(...) even when it has been represented, Wales has struggled to ensure that its stories enjoy parity of esteem with the stories of the

---

<sup>20</sup> [IWA Wales Media Audit 2015](#)

<sup>21</sup> *ibid.*

<sup>22</sup> Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, [Derbyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1 Ebrill 2014](#)

<sup>23</sup> [Ymateb Ymddiriedolaeth y BBC i ymgynghoriad y DCMS ar Adolygu'r Siarter](#)

<sup>24</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 10

more powerful and privileged; and that is not only unfair in its own right, but it further entrenches inequality, injustice and lack of true respect and self-respect.”<sup>25</sup>

46. Roedd Llywydd y Cynulliad, y Fonesig Rosemary Butler AC, yn feirniadol o sylw'r BBC i fywyd gwleidyddol yng Nghymru:

“... the BBC (and other network platforms) often ignore Wales all together or mislead viewers by reporting policy developments in devolved areas such as health and education in England as though it applies to Wales when the government here often pursues a very different direction.

“It is incongruous that - at a time when more powers have been devolved to Wales - there is less coverage and challenge of its political life.”<sup>26</sup>

47. Clywsom hefyd fod rhaid i'r BBC, wrth ddarparu gwasanaeth sy'n adlewyrchu ei chynulleidfaoedd yn y Deyrnas Unedig gael “a workforce which does the same”<sup>27</sup>. Dywedodd yr NUJ fod hwn yn faes yr oedd angen ei wella.<sup>28</sup>

### Portreadu

48. Yn ei adroddiad blynyddol ar gyfer 2014-15, cododd Cyngor Cynulleidfa Cymru y BBC bryderon ynghylch y portread cyfyngedig iawn o Gymru drwy ddrama a chomedi, gan ddweud ei fod yn “pryderu am y diffyg o ran portreadu Cymru ar deledu'r BBC ar draws y DU gyda 7 mlynedd bellach wedi mynd heibio ers y portread sylweddol diwethaf o Gymru ar ffurf drama yn y DU, sef *Gavin and Stacey* a *Torchwood*.”<sup>29</sup>

49. Roedd y pryderon hyn ynghylch diffyg portread o fywyd Cymru yn rhaglenni'r BBC yn cael eu rhannu gan lawer o'r ymatebwyr, o ran rhaglenni yn unswydd i Gymru, a hefyd yn rhaglenni'r rhwydwaith ehangach.

50. Ynglŷn â'r pwynt hwn, dywedodd yr IWA:

“(...) when was the last time you saw a programme about science made in Wales? (...), when did you last see (...) children's programming from Wales in English, or religion dealt with from Wales

---

<sup>25</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 18

<sup>26</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 05

<sup>27</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 12

<sup>28</sup> *ibid.*

<sup>29</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 08

in English? (...) When did you last see opera from Wales? We have the Welsh National Opera. When did you last see dance from Wales on television? Once you break it down into aspects of the way we live, you begin to understand why this really matters.”<sup>30</sup>

51. Roedd y Dr Ruth McElroy yn cytuno, gan ddweud “people want to see themselves reflected on television screens. They value it enormously when they are reflected there. And, if anything, what the most recent Ofcom PSB review demonstrates is that that demand from audiences to be represented is increasing.”<sup>31</sup>

52. Beirniadodd PACT yr agwedd “lift and shift” ar gynhyrchu a oedd yn cael ei harddel gan y BBC yn eu barn nhw, gan nodi bod cryn wahaniaeth rhwng symud cynyrchiadau'r BBC i Gymru er mwyn cyflawni eu cwota y tu allan i Lundain, a chael y BBC i wneud cynyrchiadau yng Nghymru sy'n portreadu Cymru, ac sy'n defnyddio cwmnïau ac actorion o Gymru.

53. Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg yn arbennig o feirniadol o allbwn Cymraeg y BBC, gan nodi bod angen i'r BBC addasu er mwyn cynrychioli holl wledydd ac ieithoedd yr ynysoedd hyn yn well. Galwodd y Gymdeithas ar y BBC i brif-ffrydio'r Gymraeg ar draws ei rwydwaith, gan ddweud y dylid gosod dyletswyddau ar holl lwyfannau'r BBC i'r perwyl hwn. Roedd hefyd yn feirniadol o'r gostyngiad yn oriau darlledu Radio Cymru a dywedodd fod angen ehangu gwasanaethau ar-lein a gwasanaethau radio Cymraeg y BBC.<sup>32</sup>

54. Mae Ymddiriedolaeth y BBC wedi cydnabod bod “peth pryder ynghylch sut y caiff Cymru ei phortreadu ar wasanaethau Rhwydwaith y BBC ac ynghylch swmp ac amrywiaeth y rhaglenni teledu Saesneg eu hiaith sy'n cael eu cynhyrchu gan BBC Cymru ar gyfer cynulleidfaoedd yng Nghymru, gyda llai o raglenni drama, comedi ac adloniant yn cael eu darparu.”<sup>33</sup>

55. Yn yr un modd, mae Gweithrediaeth y BBC wedi derbyn y feirniadaeth ynghylch portreadu Cymru, ac mae'r Cyfarwyddwr Cyffredinol wedi derbyn bod rhai agweddau ar fywyd Cymru heb gael eu disgrifio'n ddigonol gan wasanaethau teledu'r BBC ei hun yng Nghymru.<sup>34</sup>

---

<sup>30</sup> Cofnod y Trafodion, para 341, 18 Tachwedd 2015

<sup>31</sup> Cofnod y Trafodion, para 345, 18 Tachwedd 2015

<sup>32</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 14

<sup>33</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 08

<sup>34</sup> Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC, [Derbyniad Cynulliad Cenedlaethol Cymru, 1 Ebrill 2014](#)

56. Serch hynny, dywedodd Gweithrediaeth y BBC hefyd fod y BBC yn denu cynulleidfaoedd a lefelau gwerthfawrogiad yng Nghymru sy'n uwch na chyfartaledd y Deyrnas Unedig, er gwaethaf y problemau portreadau hyn. Er hynny, nododd y Cyfarwyddwr Cyffredinol fod angen i'r BBC wneud "more, and better, to reflect the lives and experiences of all licence fee payers", gan ddweud bod y sefydliad wedi gosod iddo'i hun "[a] clear creative challenge to adapt the BBC to a changing UK".<sup>35</sup> O ran ateb yr her hon, mae'r BBC yn bwriadu creu gwasanaeth digidol rhyngweithiol i bob cenedl yn y Deyrnas Unedig.

57. Dywedodd ymatebwyr wrthon ni fod y BBC wedi llwyddo i gynyddu'r gwariant ar gynyrchiadau rhwydwaith yn y cenedloedd o ganlyniad i osod targed iddo'i hun o wario 17 y cant o wariant y rhwydwaith y tu allan i Loegr. Dywedasant fod hyn yn dangos gallu'r BBC i newid ei brosesau cynhyrchu pan oedd yn ofynnol iddo wneud hynny.<sup>36</sup> O ganlyniad, dadleuwyd y dylai targedau mesuradwy ynglŷn â phortreadu gael eu gosod i'r BBC. Ymhellach, clywsom fod y cynnydd yn y diwydiannau creadigol yng Nghymru, a symbylwyd yn rhannol gan fuddsoddiad y BBC, yn golygu bod Cymru mewn lle gwych i gynhyrchu cynnwys yn unswydd i Gymru.

## Comisiynu

58. Roedd yr ymatebwyr yn feirniadol ynghylch trefniadau'r BBC ar gyfer comisiynu a'u heffaith ar bortreadu Cymru. Clywsom dystiolaeth gan nifer o randdeiliaid (gan gynnwys cynhyrchwyr annibynnol, Llywodraeth Cymru ac academyddion), fod trefniadau comisiynu presennol y BBC ar gyfer rhaglenni i'r rhwydwaith yn "ganolog iawn"<sup>37</sup> a bod hynny'n creu "unfortunate effects in terms of the representation of the whole of the UK on BBC services".<sup>38</sup>

59. Ar y pwynt hwn, dywedodd TAC wrthon ni: "BBC needs to improve its record of commissioning productions from the Nations in order to better meet its requirement to reflect the nations and regions of the UK to the rest of the country."<sup>39</sup>

60. O ran Cymru'n benodol, clywsom gan nifer o ymatebwyr fod y prif benderfyniadau ar gomisiynu yn dal i gael eu gwneud yn Llundain heb fawr o sylw i gynulleidfaoedd yng Nghymru, er bod nifer fwy o raglenni rhwydwaith yn cael eu gwneud ym Mhorth y Rhath. Ar y pwynt hwn, dywedodd y Dr John

---

<sup>35</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 17

<sup>36</sup> Cofnod y Trafodion, para 365, 18 Tachwedd 2015

<sup>37</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 20

<sup>38</sup> Cofnod y Trafodion, para 291, 18 Tachwedd 2015

<sup>39</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 03

Geraint wrthon ni fod yna “an England—call it a London—bias, if you like, in all broadcasting commissioning.”<sup>40</sup>

61. Cyfeiriodd Equity hefyd at ragfarn o blaid Llundain mewn gwaith comisiynu, gan ddweud:

“It is also important to note that London accounts for just 13% of the total population (8.2 million people). Including the rest of south east England brings this total to 27%, or 16.8 million people, so most of the UK population lives outside that part of the UK where most of the programmes have historically been made.”<sup>41</sup>

62. Cyfaddefodd Ymddiriedolwr y BBC ar gyfer Cymru fod yna “deficiencies” yn y system gomisiynu yn hyn o beth. Dywedodd: “mae’n rhaid i ni, rwy’n meddwl, ofyn i’r BBC chwilio am ffyrdd cyson o gadw’r portread mewn cof wrth gomisiynu”.<sup>42</sup>

63. Roedd yr Athro Richard Sambrook yn cytuno y byddai rhagor o welliant yn ddymunol o ran cryfhau’r portread o Gymru ar draws rhaglenni’r BBC. Dadleuai mai rhoi llai cryfach i’r cenhedloedd wrth gomisiynu rhaglenni fyddai un ffordd i fynd i’r afael â hyn:

“This may be complex for the BBC to introduce but it is appropriate as national identities strengthen across the UK and it would produce greater diversity in tone and output.

“The success of the BBC’s centre in Salford – and the impact on the North of England and on the output which is commissioned and produced there – is a useful example and precedent alongside the successes within BBC Wales, BBC Scotland and BBC Northern Ireland.”<sup>43</sup>

64. Roedd y Dirprwy Weinidog yn cytuno bod comisiynu yn “major hindrance” o ran diffyg portread o Gymru yn rhaglenni’r BBC. Er bod Llywodraeth Cymru’n dweud ei bod yn gwerthfawrogi presenoldeb y BBC yng Nghymru, dywedodd ei bod hefyd yn bryd sicrhau “a commissioning base here in Wales.”<sup>44</sup>

---

<sup>40</sup> Cofnod y Trafodion, para 288, 18 Tachwedd 2015

<sup>41</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 04

<sup>42</sup> Cofnod y Trafodion, para 43, 12 Tachwedd 2015

<sup>43</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 20

<sup>44</sup> Cofnod y Trafodion, para 24, 18 Tachwedd 2015



65. Clywsom bryderon hefyd fod nifer o raglenni o dan faner ranbarthol yn cael eu cynhyrchu gan gwmnïau sydd â'u pencadlys yn Llundain, a all gynnal clyweliadau neu wneud penderfyniadau ar y castio yn Llundain yn hytrach nag yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau. Ar y pwynt hwn, dywedodd Equity:

“Currently performers who are not based in London and the South East of England often struggle to find enough employment to sustain a career in the entertainment industry and many are forced to relocate to London in order to access opportunities.”<sup>45</sup>

66. Clywsom y dylai cyllid gael ei ddatganoli'n fwy i gyd-fynd â mwy o ddatganoli ar y trefniadau comisiynu. Ar y pwynt hwn, dywedodd yr IWA:

“The time has come to devolve a significant tranche of network funding, so that commissioners in the nations can have the freedom to bring other perspectives to bear and so diversify the output. This would not mean an end of dialogue or collaboration between the nations and the centre, but it would give the nations a leverage that does not exist at present.”<sup>46</sup>

67. Dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wrthon ni ei fod wedi gofyn am adolygiad “of how we commission, and our commissioning arrangements with not just the nations, but also with the regions of England”.<sup>47</sup>

## **Cwotâu**

68. Ar hyn o bryd, mae cwotâu'r BBC ar gyfer cynhyrchu yn nodi bod rhaid i 25 y cant o leiaf o'r comisiynau fynd i gynhyrchwyr annibynnol, a bod rhaid i 50 y cant o leiaf gael eu creu yn fewnol.<sup>48</sup>

69. Mae Gweithrediaeth y BBC wedi cynnig y dylai'r cwotâu hyn gael eu dileu ac y dylai adran gynhyrchu'r BBC gael ei throï'n is-gwmni masnachol, o'r enw “BBC Studios”, a fyddai'n fodd i lawer o gynnwys y BBC gael ei agor i gontract. Byddai BBC Studios wedyn yn gweithredu yn y farchnad, gan gynhyrchu rhaglenni i'r BBC a darlledwyr eraill, gan ddychwelyd yr elw i gyd y Grŵp y BBC.

---

<sup>45</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 04

<sup>46</sup> [IWA Wales Media Audit 2015](#)

<sup>47</sup> Cofnod y Trafodion, para 637, 26 Tachwedd 2015

<sup>48</sup> Mae'r rhain yn wahanol i'r cwotâu ar gyfer cynhyrchu rhanbarthol, lle mae'r BBC wedi ymrwymo i sicrhau bod 17 y cant o wariant y rhwydwaith yn dod o'r cenhedloedd.

70. Mae Llywodraeth Cymru, yn benodol, yn poeni y gallai'r newid hwn ganiatáu i waith y BBC i gynhyrchu cynnwys mewnol gael ei symud o'r cenhedloedd a'r rhanbarthau yn ôl tua Llundain a de-ddwyrain Lloegr. Mae'n gwrthwynebu dileu cwotâu ar gyfer comisiynu cynyrchiadau annibynnol neu gynhyrchu yn y rhanbarthau. Ar y pwynt hwn, dywedodd y Dirprwy Weinidog wrthon ni:

“To compete for commissions in Wales, it’s absolutely clear that, without the quotas for out-of-London production, we would not have that centre in Cardiff [Porth y Rhath] and we would not have an incredible increase in the level of employment that we’ve been able to celebrate and the BBC has been able to celebrate. My view is that if they wish to proceed with an element of competition for commissions, then at the very least they should protect the quotas for out-of-London production.”<sup>49</sup>

### ***Telerau masnachu***

71. Mae adolygiad o'r Telerau Masnachu, sy'n nodi sut mae'r BBC a darlledwyr eraill yn gweithio gyda chynhyrchwyr annibynnol, hefyd wedi'i gychwyn gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig.

72. Clywsom dystiolaeth mai'r Telerau Masnachu yw sail llwyddiant y sector cynhyrchu annibynnol ac y byddai dileu hawliau eiddo deallusol y cynhyrchwyr annibynnol yn gwneud niwed difrifol i'r sector hwn. Anogodd PACT y Pwyllgor i lobïo yn erbyn unrhyw gynigion i newid y Telerau Masnachu.<sup>50</sup>

### **Ein barn ni**

73. Mae strwythur a diwylliant cyffredinol y BBC yn canolbwyntio'n ormodol ar Lundain ar draul cenhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig. Yng Nghymru, mae hyn wedi cyfrannu at ddiffyg cynrychioli a phortreadu bywyd a diwylliant Cymru ar wasanaethau rhwydwaith y BBC, ac i'w gynulleidfaoedd yng Nghymru.

74. Rydym yn croesawu ymrwymiad y BBC i gynyddu ei variant ar gynyrchiadau rhwydwaith yn y cenhedloedd ac, i'r perwyl hwn, ei darged o wario 17 y cant o variant y rhwydwaith y tu allan i Loegr. Yng Nghymru, mae'r ymrwymiad hwn i ddatganoli mwy o gynhyrchu drama wedi bod yn bur llwyddiannus yn fasnachol hyd yn hyn. Serch hynny, mae'n siomedig nad

---

<sup>49</sup> Cofnod y Trafodion, para 24, 18 Tachwedd 2015

<sup>50</sup> Cofnod y Trafodion, para 196, 12 Tachwedd 2015

yw'r rhaglenni hyn wedi gwneud llawer i gryfhau cynrychiolaeth neu bortread y genedl, er eu bod wedi'u cynhyrchu yng Nghymru.

75. Dylai'r BBC wneud mwy i sicrhau bod Cymru'n cael ei chynrychioli i raddau ehangach ar draws y rhwydwaith. Ymhellach, dylai'r BBC wneud mwy i sicrhau bod rhaglenni a wneir yng Nghymru yn cynrychioli ac yn portreadu Cymru i gynulleidfa ehangach ar y rhwydwaith.

**Rydym yn argymhell y dylai'r BBC ddatblygu targedau penodol a mesuradwy ar gyfer portreadu Cymru yn ei raglenni rhwydwaith. Dylai gyflwyno adroddiad yn flynyddol ar y cynnydd yn erbyn y targedau hyn (gweler argymhelliad 7).**

76. Rhan annatod o gwestiwn portreadu yw comisiynu. Mae trefniadau'r BBC ynglŷn â chomisiynu yn dal yn ganolog iawn, ac mae'r prif benderfyniadau'n dal i gael eu gwneud yn Llundain, er bod y gwaith cynhyrchu'n cael ei ddatganoli'n fwyfwy. Nodwn fod y BBC wrthi ar hyn o bryd yn adolygu ei brosesau comisiynu.

77. Rydym yn credu y dylai rhwydwaith y BBC fod â lle comisiynu yng Nghymru. Byddai hyn yn helpu i gynyddu amrywiaeth wrth bortreadu Cymru ar raglenni'r BBC. Mae manteision y dull gweithredu hwn yn amlwg o'r enghreifftiau yn y Deyrnas Unedig lle mae gwaith comisiynu wedi'i adleoli o Lundain, yn enwedig canolfan y BBC yn Salford a'i manteision ar gyfer gogledd Lloegr. Ar ben manteision ymarferol datganoli, byddai hyn hefyd yn hybu newid diwylliant mewn sefydliad nad yw eto yn adlewyrchu datblygiadau cyfansoddiadol yn y Deyrnas Unedig yn llawn yn ei strwythur.

78. I gyd-fynd â'r agwedd ddatganoledig hon, dylid datganoli mwy ar wariant y rhwydwaith i gomisiynwyr yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau. Byddai hynny'n cyfrannu at ystod ac amrywiaeth ehangach o ran yr allbwn.

**Rydym yn argymhell y dylai'r BBC roi trefniadau ar waith i ddatganoli ei waith comisiynu i sicrhau bod comisiynwyr rhwydwaith ar gyfer y cenhedloedd a'r rhanbarthau wedi'u lleoli yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau hynny.**

**Rydym yn argymhell y dylai'r BBC ddatganoli cyfran fwy o gyllid y rhwydwaith i gomisiynwyr yn y cenhedloedd a'r rhanbarthau fel ffordd o gynyddu ystod ac amrywiaeth yr allbwn, yn lleol ac ar gyfer y rhwydwaith.**

## 4. Cyllid y BBC

---

79. Mae'r BBC yn cael ei ariannu drwy danysgrifiadau cyhoeddus ar ffurf ffi drwydded. Mae'r ffi'n cael ei phennu gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gyda chytundeb y Senedd, a'i defnyddio i ariannu gwasanaethau'r BBC ar y teledu a'r radio ac ar-lein ar gyfer cenhedloedd a rhanbarthau'r Deyrnas Unedig.

80. Yn sgil cytundeb rhwng y BBC a Llywodraeth y Deyrnas Unedig ym mis Gorffennaf 2015, bydd y BBC hefyd yn ysgwyddo cost darparu trwyddedau teledu am ddim i bobl dros 75 oed.<sup>51</sup> Bydd hyn yn dechrau'n raddol o 2018-19 ymlaen, a bydd y BBC yn ysgwyddo'r costau llawn o 2020-21 ymlaen.

### Y lefelau cyllido nawr ac yn y dyfodol

81. Ers 2010, bu'n rhaid i'r BBC wneud arbedion sylweddol ar draws ei holl weithrediadau. Rhwng 2013-14 a 2014-15, gostyngodd ei incwm cyffredinol o £5.1 biliwn i £4.8 biliwn. Erbyn diwedd cyfnod y Siarter bresennol, dylai'r BBC fod wedi sicrhau £1.6 biliwn o arbedion blynyddol cronol, ac o'r rhain mae £1.25 biliwn o arbedion wedi'u gwneud eisoes.<sup>52</sup>

82. Yn ôl Ymddiriedolaeth y BBC, bydd y cytundeb rhwng y BBC a Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn 2015 yn ei gwneud yn ofynnol i'r BBC wneud "further, significant efficiencies and savings over the next Charter period". Ar ben hynny, mae Gweithrediaeth y BBC wedi dweud ei bod yn disgwyl i gyllideb y BBC fod yn "wastad o ran arian parod" rhwng 2017-18 a 2021-22, sef "effectively a real terms reduction of 10 per cent depending on inflation forecasts". Mae wedi dweud: "significant new investment in a broader range of programming (...) cannot be delivered within the current Budget agreement".<sup>53</sup>

83. Yng Nghymru, yn sgil y setliad ar ffi'r drwydded y cytunwyd arno yn 2010, mae cyllid ar gyfer BBC Cymru Wales wedi gostwng 16% (mewn termau real) dros gyfnod o bum mlynedd fel rhan o brosiect y BBC "Delivering Quality First".<sup>54</sup> O ran lefelau'r cyllid ar gyfer cyfnod y Siarter nesaf, dywedodd Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wrthon ni: "it is too early to forecast how the BBC's financial outlook will impact on BBC Wales' expenditure".<sup>55</sup>

---

<sup>51</sup> [Hysbysiad i'r wasg: BBC to fund provision of free television licences for over-75s](#)

<sup>52</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 08

<sup>53</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 17

<sup>54</sup> [IWA Wales Media Audit 2015](#)

<sup>55</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 17

84. Ym marn Ymddiriedolaeth y BBC, “Yn yr un modd â rhannau eraill o'r BBC, mae BBC Cymru wedi gorfod gwneud arbedion effeithlonrwydd heriol, ond nid ydynt wedi bod yn anghymesur”.<sup>56</sup>

85. Roddodd Llywodraeth Cymru mo'i chefnogaeth i'r farn hon, gan ddadlau: “in recent years, the BBC's investment in Wales has reduced, at a time when its investment in Scotland, Northern Ireland and key English regions has increased.”<sup>57</sup> Mae wedi mynegi pryder hefyd fod y BBC, yn lle cyhoeddi cyllid ychwanegol, wedi ymrwymo i dorri cyllid y cenhedloedd yn llai nag mewn manau eraill.<sup>58</sup>

86. Mae Llywodraeth Cymru, ynghyd â rhai o'r ymatebwyr eraill, wedi gofyn “how the BBC can deliver on the commitments made to invest in and improve services to the nations (...) when it has ruled out any net increase in spending”.<sup>59</sup>

87. Er iddi awgrymu y gall arian fod ar gael nad oedd yn cael ei ddefnyddio i'r eithaf yng Nghymru,<sup>60</sup> cyfaddefodd Ymddiriedolaeth y BBC fod cyllideb BBC Cymru Wales yn amlwg yn rhy fach “to provide those additional creative portrayals that are also necessary.”<sup>61</sup>

88. Mae Prif Weinidog Cymru wedi galw am i fuddsoddiad y BBC yng Nghymru gynyddu £30 miliwn y flwyddyn “to ensure programming that truly reflects the lives of people in Wales”.<sup>62</sup> Mae'r alwad wedi'i hategu gan y Sefydliad Materion Cymreig:

“This [sef y £30 miliwn] is around the same level of increase that was demanded by the Welsh Government's Broadcast Advisory Group in 2008, based on the restoration of value lost up to 2013. Cuts since 2013 and scheduled up to 2016-17 would justify an even higher figure.”<sup>63</sup>

89. Gofynnodd nifer o'r tystion pa bwysau gwleidyddol a allai gael eu defnyddio gan Lywodraeth Cymru pe na bai'r £30 miliwn o gyllid ychwanegol yn dod i'r fei.

---

<sup>56</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 08

<sup>57</sup> [Ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad y DCMS ar Adolygu'r Siarter](#)

<sup>58</sup> Ymrwymiad a wnaed yn 'British, Bold, Creative'

<sup>59</sup> [Ymateb Llywodraeth Cymru i ymgynghoriad y DCMS ar Adolygu'r Siarter](#)

<sup>60</sup> Cofnod y Trafodion, para 61, 12 Tachwedd 2015

<sup>61</sup> Cofnod y Trafodion, para 54, 12 Tachwedd 2015

<sup>62</sup> [Llythyr gan Brif Weinidog Cymru at Gyfarwyddwr Cyffredinol y BBC](#)

<sup>63</sup> [IWA Wales Media Audit 2015](#)

## Ffi'r drwydded

90. Mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi dweud bod system bresennol ffi'r drwydded yn "regressive, set at a flat rate and is not adjusted for different household incomes". Mae'r Papur Gwyrdd yn nodi nifer o ddewisiadau ar gyfer modelau cyllido at y dyfodol ar gyfer y BBC. Mae'r rhain yn cynnwys cadw ffi'r drwydded, ond ei diwygio er mwyn cau 'dihangfa'r iPlayer' (sy'n golygu nad oes angen trwydded i edrych ar wasanaethau ar alw neu wasanaethau dal i fyny); sefydlu ardoll gyffredinol yn lle ffi'r drwydded; neu gymysgedd o gyllid cyhoeddus a threfniant tanysgrifio.

91. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr, gan gynnwys y BBC, yr NUJ a TAC, o'r farn y dylai system ffi'r drwydded gael ei chadw ar gyfer cyfnod y Siarter nesaf, er bod nifer wedi awgrymu y dylai gael ei moderneiddio, neu y dylid gwneud rhagor o ymchwil ar fodelau eraill, gan gynnwys system yr Almaen o godi ardoll ar aelwydydd.

92. Ym marn yr NUJ, "compared with the subscription packages put together by the likes of Sky and Virgin, the licence fee is vastly cheaper and is of incredible value".<sup>64</sup>

93. Roedd Gweithrediaeth ac Ymddiriedolaeth y BBC o blaid cadw ffi'r drwydded ar ffurf wedi'i moderneiddio, gan ddeddfu i fynd i'r afael â materion ynglŷn â gwasanaethau ar alw a gwasanaethau dal i fyny.

94. Dywedodd Gweithrediaeth y BBC hefyd ei bod yn gallu gweld rhinweddau mewn opsiwn ar gyfer y tymor canolig o ddisodli ffi'r drwydded ag ardoll gyffredinol. Er hynny, nid oedd o blaid cyflwyno model o gyllido ar sail tanysgrifiad, naill ai ar ei ben ei hun neu i ran-ariannu ffi'r drwydded:

"It [sef model tanysgrifio] would harm UK content investment and quality, restrict access for audiences, and increase the cost they pay—ultimately damaging the UK's media ecology which is based on competition for quality, but not funding."<sup>65</sup>

95. Yn yr un modd, roedd BECTU hefyd yn feirniadol ynglŷn â'r cynigion ar gyfer gwasanaeth wedi'i seilio ar danysgrifiad:

"The introduction of subscription services would contradict one of the founding principles of the UK's historic and successful public service

---

<sup>64</sup> [Tystiolaeth ysgrifenedig yr NUJ i Bwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon Tŷr Cyffredin](#)

<sup>65</sup> [Cyflwyniad y BBC i ymgynghoriad cyhoeddus y DCMS ar Adolygu'r Siarter](#)

broadcasting sector; namely that services should be free at the point of consumption.

“Depending on the choices made by a subscription consumer base, it could also dramatically alter the diversity of the BBC's output, with less popular, probably specialist, content disappearing.”<sup>66</sup>

96. Ym marn BECTU, ffi'r drwydded, neu ardoll debyg ar aelwydydd, yn cael ei chasglu ar wahân i drethi, “is the most appropriate, and only workable, funding system for the BBC.”

97. Yn yr un modd, mae'r NUJ wedi cadarnhau y byddai'n croesawu ymchwil ar fodolau eraill, megis “German household-levy method or a tax on electrical equipment”.

98. Roedd nifer o'r ymatebwyr yn feirniadol o'r modd y cyrhaeddwyd y setliad diweddaraf ar ffi'r drwydded. Dywedodd BECTU wrthon ni fod y setliad wedi'i gytuno “before the public debate had really begun over the BBC's future”. Dywedodd BECTU:

“Setting a funding level before confirming the scope and scale of the BBC's future activity really does put the cart before the horse, and rules out a Licence Fee which is sufficient to fund the existing range of services on offer, which we believe is the will of most Licence payers.”<sup>67</sup>

99. Cyfeiriodd yr Athro Richard Sambrook at gyflymder y cytundeb ar y ddau setliad blaenorol ar ffi'r drwydded, gan ddweud bod y cytundebau hynny wedi gweld “significant pressure from the government to the BBC's funding base and with no public transparency or opportunity for the public and other stakeholders to express a view.”<sup>68</sup>

100. Dywedodd yr Athro Tom O'Malley:

“That the licence fee and or significant aspects of the BBC's finances should be largely determined twice in five years without proper consultations with the nations and regions in the UK is indicative of a deep failure in governance.”<sup>69</sup>

---

<sup>66</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 13

<sup>67</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 13

<sup>68</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 20

<sup>69</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 01

101. Cafodd y pwyntiau hyn eu cydnabod gan Gadeirydd Ymddiriedolaeth y BBC, yn ogystal â Chyfarwyddwr Cyffredinol y BBC a ddywedodd fod y cytundeb wedi'i wneud "at breakneck speed and in a way that actually shouldn't happen again."<sup>70</sup>

### **Trwyddedau gwasanaethau**

102. Mae trwyddedau gwasanaethau'n nodi cylch gorchwyl, rhychwant a chyllideb gwasanaethau penodol i'r BBC ac yn cynnwys set o ymrwymadau, gan gynnwys amodau gofynnol ynghylch mathau penodol o allbwn.

103. Mae Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC wedi awgrymu creu "trwyddedau gwasanaethau" ar wahân ar gyfer pob un o'r cenhedloedd, a fyddai'n disgrifio'r allbynnau cynulleidfya angenrheidiol ar gyfer y cenhedloedd yn ogystal â'r cyllid a fyddai ar gael i'w cyflawni. Roedd yn teimlo y byddai cytundebau ar drwyddedau gwasanaethau yn dal yn angenrheidiol ar gyfer llwyfannau ar lefel y rhwydwaith ac ar lefel y Deyrnas Unedig, ond y gallai trwydded gwasanaeth i Gymru ganiatáu penderfyniadau ar gyfer Cymru a fyddai'n "easier, better and more creative".<sup>71</sup>

104. Croesawyd y cynnig gan Gyfarwyddwr BBC Cymru Wales, Rhodri Talfan Davies, a ddywedodd y gallai trwydded gwasanaeth i Gymru ei alluogi i aildrefnu blaenoriaethau'r cyllid a gwneud penderfyniadau'n gyflymach yng Nghymru:

"We are going through, right now, a period of consumer audience technological change that requires very rapid decision making. (...) do the nation's directors have the flexibility to be able to reprioritise at a speed that keeps pace with audiences? I think, at the moment, that the regulatory structural licences arguably act as a brake on making decisions that would keep us in tune."<sup>72</sup>

### **Ein barn ni**

105. Dyfodol ansicr sydd o flaen cyllid BBC Cymru Wales. Er eu bod eisoes wedi gwneud arbedion effeithlonrwydd sylweddol dros gyfnod y Siarter bresennol, bydd rhaid hefyd iddyn nhw wneud eu cyfran o arbedion pellach, sy'n wynebu'r BBC yn ei grynsyth ac sy'n angenrheidiol o ganlyniad i'r cytundeb ar ffi'r drwydded yn 2015. Rydym yn bryderus iawn ynghylch goblygiadau hyn ar gyfer amrywiaeth ac ansawdd allbwn y BBC yng Nghymru

---

<sup>70</sup> Cofnod y Trafodion, para 620, 26 Tachwedd 2015

<sup>71</sup> Cofnod y Trafodion, para 706, 26 Tachwedd 2015

<sup>72</sup> Cofnod y Trafodion, para 713, 26 Tachwedd 2015



yn y dyfodol. Ar ben hynny, nid ydym yn credu bod ymrwymiad y BBC i'r cenhedloedd, sef sicrhau "eu bod yn cael eu torri yn llai na mannau eraill" yn dderbyniol, yn enwedig o gofio'r gostyngiadau anghymesur yn y cyllid sydd eisoes wedi'u gweld yng Nghymru.

106. Rydym yn cefnogi galwad Llywodraeth Cymru y dylai'r BBC fuddsoddi £30 miliwn yn ychwanegol yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer Cymru. Rydym yn credu bod y buddsoddiad hwn yn hanfodol er mwyn sicrhau bod cynnwys o safon i Gymru yn dal i gael ei wneud. Hefyd, rydym yn cytuno na ddylai unrhyw fuddsoddiad ychwanegol mewn rhaglenni Saesneg ddod ar draul toriadau yng nghyllid S4C neu allbwn Cymraeg y BBC ei hun.

**Rydym yn argymhell y dylai'r BBC fuddsoddi £30 miliwn yn ychwanegol yn y gwasanaethau y mae'n eu darparu ar gyfer Cymru.**

107. Yn fwy cyffredinol, roeddem yn bryderus iawn ynglŷn â'r modd y cyrhaeddwyd y setliad diweddaraf ar ffi'r drwydded. Rydym yn credu ei bod yn hanfodol bod y broses ar gyfer penderfynu ar setliadau cyllid yn y dyfodol yn sicrhau annibyniaeth oddi wrth bwysau'r Llywodraeth; ei bod yn agored a thryloyw; a'i bod yn gyfle ar gyfer ymgynghori ystyrlon â rhanddeiliaid a'r cyhoedd.

## 5. Llywodraethiant ac atebolrwydd

---

### Y cefndir

108. Llywodraethir y BBC gan Ymddiriedolaeth y BBC. Yr Ymddiriedolaeth sy'n gyfrifol am bennu cyfeiriad strategol y BBC, dwyn y Weithrediaeth y gyfrif am ei pherfformiad, a monitro sut mae'n gwario ffi'r drwydded. Mae i'r Ymddiriedolaeth ddeuddeg o Ymddiriedolwyr, gan gynnwys pedwar Ymddiriedolwr Cenedlaethol sy'n cynrychioli Cymru, Lloegr, yr Alban a Gogledd Iwerddon. Y frenhines sy'n penodi'r Ymddiriedolwyr, yn unol â chyngor Gweinidogion Llywodraeth y Deyrnas Unedig.

109. Mae'r Ymddiriedolwr Cymreig yn cadeirio Cyngor Cynulleidfa Cymru (ACW). Rôl yr ACW yw craffu ar berfformiad y BBC ar ran cynulleidfaedd sy'n byw yng Nghymru, a chynghori'r Ymddiriedolaeth ar faterion sy'n ymwneud â chynulleidfaedd a gwasanaethau'r BBC ar lefel Cymru. Mae hefyd yn asesu rhaglenni a gwasanaethau'r BBC yng Nghymru ac i ba raddau y mae allwn rhwydwaith y BBC a'i weithgareddau eraill yn adlewyrchu amrywiaeth y Deyrnas Unedig a'i chenhedloedd a'i rhanbarthau.

### Llywodraethiant

110. Roedd y mwyafrif o'r ymatebwyr a gyflwynodd sylwadau ar drefniadau presennol y BBC o ran llywodraethiant a strwythur o'r farn nad oedden nhw'n addas i'w diben.

111. Dywedodd yr NUJ mai "dead duck" oedd yr Ymddiriedolaeth bresennol, a disgrifiad BECTU o'r model presennol oedd "problematic", gan ddweud "the BBC Trust [is] sometimes playing the role of a disconnected public advocate, and on other occasions attempting to micro-manage BBC activities". It felt that "there is a strong argument for change."<sup>73</sup>

112. Mae Gweithrediaeth ac Ymddiriedolaeth y BBC wedi cydnabod bod angen newid. Dywedodd Gweithrediaeth y BBC "it is clear that the current structures do not carry sufficient confidence with a lack of clarity around BBC Trust and BBC Executive functions", gan nodi:

"The BBC is (...) supportive of a move towards the creation of a new unitary Board, fully independent of Government. The corollary of a

---

<sup>73</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 13

unitary BBC Board with its own non-executive Chairman is the move to external regulation of the BBC.”<sup>74</sup>

113. Dywedodd y Weithrediaeth hefyd y dylai unrhyw fodel llywodraethu fod yn “responsive to the diversity of the UK”.<sup>75</sup>

114. Yn yr un modd, teimlai Ymddiriedolaeth y BBC fod “gwell eglurder o ran pwy sy'n gyfrifol am swyddogaethau a phwy sy'n gyfrifol am arfer y swyddogaethau hynny (rheoli, goruchwyllo neu reoleiddio) yn bwysig.” Cynigiodd hefyd y dylid creu “Bwrdd unedol gyda mwyafrif o Gyfarwyddwyr Anweithredol a Chadeirydd Anweithredol a benodwyd yn annibynnol i redeg y sefydliad, penderfynu ar ei strategaeth a rheoli ei gyllid”.<sup>76</sup>

115. Awgrymodd yr Ymddiriedolwr Cymreig y byddai Cymru ar ei hennill pe bai dulliau ac ysgogiadau rheoleiddio'r BBC yn cael eu cryfhau.<sup>77</sup>

116. Mynegodd Llywodraeth Cymru ei chefnogaeth hefyd i greu bwrdd unedol a rheoleiddiwr annibynnol, gan ddweud hefyd y dylai Cadeirydd y bwrdd unedol bob amser fod yn aelod anweithredol. Dadleuai y dylai bwrdd y rheoleiddiwr newydd gynnwys cynrychiolydd o Gymru, a'i benodiad i gael ei arwain gan Lywodraeth Cymru.

117. Amlygodd sawl ymatebydd arall hefyd bwysigrwydd cynrychiolaeth gref ar gyfer Cymru fel rhan o unrhyw drefniadau llywodraethu yn y dyfodol. Dywedodd Llywydd y Cynulliad wrthon ni:

“The Commission on Devolution in Wales, led by Paul Silk recommended the establishment of a devolved governance body within the UK BBC Trust framework to provide independent oversight and scrutiny of BBC outputs in Wales.

“I believe this could go a long way to strengthening the voice of Wales on the BBC Trust, I would encourage the Committee to recommend that Wales has a strong voice in any future management structures.”<sup>78</sup>

118. Roedd y Llywydd hefyd yn rhannu barn Comisiwn Silk: “the appointment of the Welsh representative on the BBC Trust, or in any future governance

---

<sup>74</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 17

<sup>75</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 17

<sup>76</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 08

<sup>77</sup> Cofnod y Trafodion, para 129, 12 Tachwedd 2015

<sup>78</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 05

framework, should be agreed formally between the Welsh and UK Governments.”<sup>79</sup>

119. Clywsom ar wahân y dylai'r Cynulliad gael rôl o ran sicrhau cynrychiolaeth i Gymru fel rhan o drefniadau llywodraethiant y BBC yn y dyfodol.

120. Dadleuai'r Athro Richard Sambrook:

“For the devolved nations, it is essential their voice is represented both within the non-executive directors on the BBC unitary board and on the regulatory board. The national assemblies should be formally consulted by the DCMS and have a role in making such appointments.”<sup>80</sup>

121. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg mai'r Cynulliad a ddylai fod yn gyfrifol am benodi aelodau i'r Ymddiriedolaeth er mwyn sicrhau y gallai Cymru gael ei chynrychioli yn allbwn y BBC.<sup>81</sup>

122. Ar y llaw arall, mae Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, Tŷ'r Cyffredin, wedi argymhell yn ddiweddar na ddylid cael "specific director" ar ran Cymru o dan strwythur llywodraethiant newydd i'r BBC.<sup>82</sup>

123. Aeth ymatebwyr eraill ymhellach, gan alw am ethol Gyngor Darlledu i Gymru, wedi'i ethol yn ddemocrataidd, a chanddo bwerau datganoledig dros gyllid, cynnwys a gwaith comisiynu'r BBC yng Nghymru. Gwnaed y pwynt hwn gan yr Athro Tom O'Malley, sy'n dadlau bod llywodraethiant y BBC yn rhy ganolog, ac y dylid mabwysiadu strwythur ffederal<sup>83</sup>

124. Dadleuai'r IWA o blaid sefydlu Ymddiriedolaeth Darlledu Genedlaethol ymhob un o genhedloedd y Deyrnas Unedig, a fyddai'n gyfrifol am lunio a darparu trwydded gwasanaeth cenedlaethol. Yn yr un modd, mae Comisiwn Silk<sup>84</sup> wedi argymhell cyn hyn y dylid sefydlu Ymddiriedolaeth ddatganoledig i'r BBC yng Nghymru, o fewn fframwaith Ymddiriedolaeth y Deyrnas Unedig, i fod yn gyfrifol am oruchwylio a chraffu ar bolisi, cynnwys a dyraniad adnoddau'r BBC yng Nghymru.

---

<sup>79</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 05

<sup>80</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 20

<sup>81</sup> Cofnod y Trafodion, para 67, 2 Rhagfyr 2015

<sup>82</sup> Y Pwyllgor Diwylliant, Cyfryngau a Chwaraeon, Tŷ'r Cyffredin, 'BBC Charter Review', [Adroddiad](#) cyntaf sesiwn 2015-16

<sup>83</sup> Cofnod y Trafodion, para 312, 18 Tachwedd 2015

<sup>84</sup> [Empowerment and Responsibility: Legislative Powers to Strengthen Wales](#)

125. Mae Panel Cynghori Llywodraeth Cymru ar Ddarlledu wedi argymhell cyn hyn y dylai Llywodraeth Cymru greu “and empower a new Public Service Media Council for Wales, to be appointed by, and answerable directly to, the First Minister.” Dadleuai’r Panel mai rôl cyngor o’r fath fyddai: “lead the debate on the future of public service broadcasting content delivery in Wales on behalf of the Welsh Government and represent the needs of Welsh citizens and Welsh businesses at a UK level”.<sup>85</sup>

126. Roedd yr NUJ yn cefnogi’r galwadau am i unrhyw strwythur llywodraethu newydd fod yn annibynnol ar y Llywodraeth ac yn destun gwaith craffu gan bwyllgorau a’r Senedd. Dadleuai’r NUJ hefyd: “BBC staff and licence-fee payers should be part of a new governance structure” and that “Ofcom needs to play a greater role in scrutiny of the BBC”.<sup>86</sup>

127. Er hynny, roedd rhai o’r ymatebwyr yn pryderu oherwydd awgrymiadau y gallai Ofcom ymgymryd â rôl fel rheoleiddiwr y BBC yn y dyfodol. Teimlad yr Athro Tom O’Malley oedd hyn: “any change to the overall structure of governance at the BBC [should be] done within the context of enhanced accountability rather than diminished accountability in the interests of executive speed and commercial decision making, as important as that is.”<sup>87</sup>

128. Ymhellach, dywedodd:

“If the BBC is to be put under Ofcom, (...) Ofcom’s governance and aims and purposes would need to be radically reformulated in order to make sure that the BBC was not being put under a body whose *raison d’être* is to promote commercial values within the media sector. It has other responsibilities as well, but that is at its core.”<sup>88</sup>

129. Er hynny, doedd PACT ddim yn cefnogi “the proposals mooted by the Devolved Assemblies to create a more federal system of governance within the BBC”. Gan mai sefydliad i’r Deyrnas Unedig yw’r BBC, dadleuai PACT y dylai Llywodraeth a Senedd y Deyrnas Unedig barhau’n gyfrifol am bennu ffi’r drwydded a thelerau’r Siarter.

130. Fel rhan o’r broses o adnewyddu’r Siarter, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi sefydlu adolygiad annibynnol o lywodraethiant a rheoleiddio’r BBC, o dan arweiniad Syr David Clementi.

---

<sup>85</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth Leol, 13 Ionawr 2016, [CEG \(04\)-01-16 \(papur 3\)](#)

<sup>86</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 12

<sup>87</sup> Cofnod y Trafodion, para 376, 18 Tachwedd 2015

<sup>88</sup> Cofnod y Trafodion, para 376, 18 Tachwedd 2015

## Atebolrwydd

131. Dywedodd llawer o'r ymatebwyr nad yw'r BBC yn ddigon atebol i gynulleidfaoedd yng Nghymru. Cafwyd cytundeb ymysg yr ymatebwyr ynghylch yr angen am fwy o atebolrwydd yn y BBC yng Nghymru a rôl gryfach i Lywodraeth Cymru a Chynulliad Cenedlaethol Cymru.

132. Ym marn yr Athro Tom O'Malley, canlyniad y ffaith nad yw darlledu'n fater datganoledig yw hyn:

“neither the Welsh Assembly Government nor the National Assembly has had a specific and permanent department and committee structure devoted to the issue of communications policy in Wales. Nonetheless both organisations have spent time, in arguably a largely ad hoc fashion, responding to successive initiatives from Westminster, Ofcom and the BBC.”

133. Aeth ymlaen i ddweud:

“It is not good enough to allow Wales's interests in this process to be the upshot of what will inevitably be policy driven from Westminster, and filtered through the BBC central management.”<sup>89</sup>

134. Gwrthododd yr IWA “the notion that nothing in this field should be devolved unless everything is devolved” gan alw am ranu'r cyfrifoldeb dros faterion darlledu a'r cyfryngau rhwng Llywodraeth y Deyrnas Unedig a'r gweinyddiaethau datganoledig.<sup>90</sup>

135. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod wedi cyfeirio'n gyson at “the importance of improving the accountability of UK broadcasting institutions to the National Assembly and to Welsh viewers and listeners”. Roedd ei Phanel Cyngori ei hun ar Ddarlledu wedi dweud o'r blaen:

“The UK's current devolution arrangements do not include satisfactory arrangements for the governance of PSB services. The new devolved governments are neither recognised nor represented. No broadcasting institution is directly accountable to the people of Wales.”<sup>91</sup>

---

<sup>89</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 01

<sup>90</sup> [IWA Wales Media Audit 2015](#)

<sup>91</sup> Y Pwyllgor Cymunedau, Cydraddoldeb a Llywodraeth leol, 13 Ionawr 2016, [CELG \(04\)-01-16 \(papur 3\)](#)

136. Rhoddodd Llywodraeth Cymru groeso i'r ffaith bod Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth wedi'i gwblhau rhwng y BBC, Llywodraeth y Deyrnas Unedig, Llywodraeth Cymru a'r Cynulliad, a fydd yn rhwymo'r BBC i ymddangos gerbron pwyllgorau Cynulliad ar yr un sail ag y mae'n ymddangos yn Senedd y Deyrnas Unedig.<sup>92</sup>

137. Mae Equity yn dweud yn ei dystiolaeth y dylai'r BBC yng Nghymru fod yn fwy atebol i Lywodraeth Cymru. Mae hefyd yn cefnogi argymhellion penodol Comisiwn Silk ynghylch y BBC, er ei fod yn tanlinellu ei fod yn credu ei bod yn anodd gwybod sut y byddai'r strwythurau hyn yn gweithio gyda strwythurau llywodraethu newydd ar ôl i'r Siarter gael ei hadnewyddu.

138. Dywedodd Llywydd y Cynulliad Cenedlaethol, y Fonesig Rosemary Butler AC:

“I do not call for broadcasting to be devolved to the Assembly but I believe the National Assembly should have the opportunity to scrutinise the BBC's relationship with, and provision for, its Welsh audience.”<sup>93</sup>

139. Argymhellodd yr IWA y dylai fod yn ofynnol i'r BBC, ymysg darparwyr eraill yn y cyfryngau yng Nghymru, osod adroddiadau blynyddol gerbron y Cynulliad Cenedlaethol ynghylch “all their operations relevant to Wales.”<sup>94</sup>

140. Roedd sawl un o'r tystion, gan gynnwys yr Athro Tom O'Malley, yn pwysu am i'r Cynulliad sefydlu pwyllgor sefydlog i fonitro materion y cyfryngau yng Nghymru.

## **Ein barn ni**

### *Llywodraethiant*

141. Mae trefniadau llywodraethu presennol y BBC yn anfoddhaol ac yn gallu arwain at ddryswch ynghylch rolau Gweithrediaeth y BBC a'r Ymddiriedolaeth. Ymhellach, nid ydym yn teimlo eu bod wedi gwneud fawr ddim i sicrhau rhaglenni i Gymru sy'n adlewyrchu ei hunaniaethau cenedlaethol.

---

<sup>92</sup> [Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth diwygiedig](#)

<sup>93</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 05

<sup>94</sup> [IWA Wales Media Audit 2015](#)

142. Rydym yn credu y dylai strwythur llywodraethu'r BBC gefnogi prosesau penderfynu mwy lleol a bod yn addas at y diben hwnnw. **Gan hynny, rydym o blaid y symudiad tuag at strwythur ffederal i'r BBC. O dan strwythur o'r fath, dylai mwy o rym a chyfrifoldeb gael eu trosglwyddo i BBC Cymru Wales, gan ei alluogi i gael mwy o reolaeth olygyddol dros waith comisiynu a phenderfynu.**

143. Wrth gwrs, ceir safbwyntiau eraill am y model llywodraethu newydd mwyaf priodol, gan gynnwys yr un sydd orau gan Weithrediaeth y BBC ac Ymddiriedolaeth y BBC, sef bwrdd unedol a rheoleiddiwr ar wahân, ac rydym yn nodi bod adolygiad Clementi o lywodraethiant a rheoleiddio'r BBC wedi dechrau.

144. **Pa fframwaith llywodraethu a rheoleiddio bynnag a bennir ar gyfer y BBC, mae'n hanfodol bod gan Gymru lais cryf ynddo.** I'r perwyl hwn, rydym yn credu y dylai penodiad cynrychiolydd/cynrychiolwyr Cymru yn y fframwaith hwnnw gael ei gytuno rhwng Llywodraeth Cymru a Llywodraeth y Deyrnas Unedig, mewn ymgynghoriad â'r Cynulliad.

145. Rydym yn cefnogi cynnig Cyfarwyddwr Cyffredinol y BBC ar gyfer trwyddedau gwasanaeth ar wahân ar gyfer pob un o'r cenhedloedd. Yng Nghymru, rydym yn credu y byddai hyn yn galluogi BBC Cymru Wales i flaenoriaethu'r cyllid yn well i fodloni ei rwymedigaethau a'i flaenoriaethau ei hun.

#### *Atebolrwydd*

146. Rydym yn credu y dylid sicrhau llinell atebolrwydd uniongyrchol o'r BBC i'r Cynulliad ar gyfer allbwn y BBC yng Nghymru. Dylai trefniadau o'r fath gynnwys gofyniad bod rhaid i'r BBC gyflwyno adroddiad blynyddol i'r Cynulliad am ei ddarpariaeth gwasanaeth ar gyfer Cymru, gan gynnwys datganiad o gyfrifon, ac ymddangos gerbron pwyllgorau'r Cynulliad. Ni ddylai hyn gyfaddawdu ar annibyniaeth olygyddol y BBC.

147. Rydym yn croesawu datblygu Memorandwm Cyd-ddealltwriaeth a fydd yn rhwymo'r BBC i ymddangos gerbron y Cynulliad "ar yr un sail ag y mae'n ymddangos yn Senedd y Deyrnas Unedig", ac y bydd yr ymrwymadau a nodir yn y Memorandwm yn cael eu hymgorffori yn y Siarter.

**Rydym yn argymhell y dylai'r BBC gyflwyno adroddiad bob blwyddyn i'r Cynulliad ar ei allbynnau a'i weithrediadau sy'n berthnasol i Gymru, a darparu datganiad archwiliedig o gyfrifon.**



**Rydym yn argymhell y dylai'r BBC ymddangos gerbron pwyllgorau'r Cynulliad ynglŷn â materion sy'n berthnasol i Gymru.**

148. Dylai'r Cynulliad gryfhau ei drefniadau ei hun ar gyfer dwyn y BBC a sefydliadau eraill yn y cyfryngau i gyfrif am y gwasanaethau y maen nhw'n eu darparu i'w cynulleidfaoedd yng Nghymru ac am yr arian sy'n cael ei wario wrth wneud hynny. Yn y Cynulliad nesaf, dylai un pwyllgor ganolbwyntio ar 'ddarlledu a'r cyfryngau' yn unig, gan adlewyrchu ei bwysigrwydd i fywyd Cymru a'r economi.

**Rydym yn argymhell y dylai'r pumed Cynulliad benderfynu sefydlu pwyllgor ar gyfathrebu. Byddai'r pwyllgor hwn yn sicrhau bod y BBC a sefydliadau eraill yn y cyfryngau sy'n gweithredu yng Nghymru yn cael eu dwyn i gyfrif yn gyhoeddus ynglŷn â chyflawni eu cyfrifoldebau a'u hymrwymadau i Gymru.**

## 6. S4C

---

### Cyllid

#### *Y cefndir*

149. Mae'r Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon o dan ddyletswydd statudol i sicrhau bod S4C yn cael "sufficient funding" i gyflawni ei gylch gorchwyl fel darlledwyr gwasanaeth cyhoeddus.<sup>95</sup>

150. Tan fis Ebrill 2013, darperid cyllid S4C gan y DCMS drwy grant a oedd yn gysylltiedig â chwyddiant. Ers hynny, yn sgil penderfyniadau a wnaed o dan yr Adolygiad Gwariant Cynhwysfawr diwethaf, mae'r rhan fwyaf o arian S4C wedi'i darparu drwy ffi'r drwydded a hynny drwy gyfrwng Ymddiriedolaeth y BBC, gyda'r DCMS yn parhau i roi grant bach.

151. Yn 2011-12, cafodd S4C £101 miliwn gan y DCMS. Yn 2014-15, gostyngodd ei chyllideb i ryw £82 miliwn.<sup>96</sup>

152. Ar 25 Tachwedd 2015, cyhoeddodd Llywodraeth y Deyrnas Unedig y byddai'r cyllid a ddarperid gan y DCMS i S4C yn gostwng o'r swm presennol o £6.7m i £5m erbyn 2019-20. Byddai hyn yn gyfystyr â gostyngiad o 26 y cant.

#### *"Cyllid digonol"*

153. Dros gyfnod y setliad ariannol presennol, mae S4C wedi gweld gostyngiad mewn termau real o ryw 36 y cant yn ei incwm.

154. Wrth gyflwyno sylwadau ar hyn, dywedodd S4C wrthon ni ei bod "wedi llwyddo, yn gyffredinol i gynnal y gwasanaeth presennol cynhwysfawr o fewn y setliad ariannu", ond bod effaith y gostyngiadau ariannol yn cynnwys rhoi'r gorau i'w gwasanaeth clirlun yn 2012; gostyngiad yn y buddsoddiad mewn rhaglenni i blant; diffyg drama wreiddiol am gyfnodau hir; a llai o allu i gystadlu am hawliau chwaraeon.<sup>97</sup>

155. Dywedodd S4C hefyd fod unrhyw arbedion pellach, o gofio graddfa'r gostyngiadau y mae'r Sianel wedi'u hwynebu hyd yn hyn, "yn debygol o olygu gostyngiad yn yr ystod a'r math o wasanaeth a ddarperir gan S4C".<sup>98</sup>

---

<sup>95</sup> [Adran 31, Deddf Cyrff Cyhoeddus 2011](#)

<sup>96</sup> £76 miliwn drwy ffi'r drwydded oddi wrth Ymddiriedolaeth y BBC, a rhyw £6.8 miliwn oddi arth y DCMS

<sup>97</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 11

<sup>98</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 11

156. Ym mis Gorffennaf 2015, dywedodd yr Ysgrifennydd Gwladol wrth y Senedd ei bod yn rhesymol i S4C wneud "the same kinds of efficiency savings that the Government are looking for the BBC to make".<sup>99</sup> Wrth ymateb i hynny, dywedodd S4C:

"It's not unreasonable to think that S4C should do everything within its power to pursue efficiencies [...]. We do argue, though, that, given the scale of the cut that S4C has already received since 2010 (...), it's appropriate to take that into account in considering what scope there may be for efficiencies."<sup>100</sup>

157. Yn ychwanegol at y pryderon difrifol a fynegwyd gan S4C ynghylch y gostyngiadau yn ei chyllid dros gyfnod Siarter hon, cynigiodd nifer o'r ymatebwyr eraill sylwadau hefyd ynghylch y "disproportionate cuts that have been imposed on S4C to date" gan ofyn "how fair and appropriate is it for it to shoulder any further cuts".<sup>101</sup>

158. Dywedodd Comisiynydd y Gymraeg:

"Fel yr unig ddarlledwr teledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg ym Mhrydain a'r unig sianel deledu Gymraeg yn y byd mae'n allweddol bod S4C y parhau i wasanaethu'r gynulleidfa Cymraeg ei hiaith gyda sicrwydd ariannol ac adnoddau digonol i gyflawni ei phwrpas."<sup>102</sup>

159. Cafodd y pryderon hyn am ostyngiadau ariannol a gallu S4C i barhau i gefnogi'r Gymraeg eu hadleisio gan nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Equity, Cyngor Celfyddydau Cymru, y Dr John Geraint a BECTU.

160. Ym marn BECTU, byddai'n "absolutely catastrophic" pe bai gofyn i S4C wneud rhagor o doriadau, ac yn golygu "the end of S4C".<sup>103</sup> Yn yr un modd, dywedodd yr IWA fod rhaid cynnal cyllid S4C "if it is not to be pushed into a cycle of decline".<sup>104</sup>

161. Dywedodd Llywodraeth Cymru ei bod yn anochel y byddai graddfa'r toriadau sydd wedi wynebu S4C yn effeithio ar yr allbwn sydd ar gael i'r gwylwyr, a'i bod wedi datgan yn gyson na ddylid gwneud rhagor o doriadau yng nghyllideb S4C. Nododd hefyd y bydd cytundebau cyllido presennol S4C

---

<sup>99</sup> [Hansard, 6 Gorffennaf 2015](#)

<sup>100</sup> Cofnod y Trafodion, para 35, 4 Tachwedd 2015

<sup>101</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 06

<sup>102</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 06

<sup>103</sup> Cofnod y Trafodion, para 145, 4 Tachwedd 2015

<sup>104</sup> [IWA Wales Media Audit 2015](#)

yn dod i ben yn y ddwy flynedd nesaf, a'i bod yn holl-bwysig sicrhau cytundeb ar y cyllid at y dyfodol gyda'r DCMS cyn gynted â phosibl.

162. Mae S4C wedi galw am adolygiad annibynnol o'r "challenges facing a Welsh-language broadcaster for the next five or 10 years—taking everything into account in terms of the way the media are developing, the opportunities there for a media organisation to do more, the challenges facing the language and what the needs of today's Wales are in terms of the Welsh language".<sup>105</sup>

163. Galwodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg hefyd am adolygiad trylwyr er mwyn pennu pa lefel o gyllid sy'n ddigonol i S4C, yn hytrach na bod y swm yn un mympwyol.

### *Diogelu cyllid*

164. Galwodd nifer o'r ymatebwyr, gan gynnwys Equity, am ddiogelu trefniadau ariannol S4C, yn enwedig yng ngoleuni'r gostyngiadau ariannol y mae'r sianel wedi'u profi eisoes.

165. Ar ben hynny, roedd rhai o'r ymatebwyr yn pryderu y gallai Ymddiriedolaeth y BBC ddechrau edrych ar S4C fel gwasanaeth i'w ariannu allan o gyfran gyffredinol Cymru o refeniw ffi'r drwydded, gan ei gwneud yn ofynnol iddi gystadlu â gwasanaethau eraill y BBC yng Nghymru am gyllid. Disgrifiodd Ymddiriedolaeth y BBC ei hun S4C fel "an important part of how the BBC serves its audiences in the nations".<sup>106</sup>

166. Dadleuai S4C yn gryf ei bod yn "briodol felly i ystyried ei anghenion ariannu ar wahân (...) ac ar wahân i ystyried darpariaeth y BBC ar gyfer y cenhedloedd yn gyffredinol".<sup>107</sup> Mae'r Sianel wedi galw hefyd am i'w chyllid o ffi'r drwydded gael ei ddiogelu am gyfnod gosod, ac i'w chyllid o ffi'r drwydded gael ei phennu ar wahân i'r adolygiad o Siarter y BBC ei hun.

167. Dadleuai Cymdeithas yr Iaith Gymraeg y dylai cyfran S4C o ffi'r drwydded fynd yn syth i S4C, yn hytrach na chael ei chyfeirio drwy'r BBC, er mwyn sicrhau annibyniaeth S4C. Galwodd am fwy o fuddsoddi yn S4C, a mabwysiadu fformiwla ariannu statudol i sicrhau sicrwydd tymor hir y Sianel.

168. Galwodd TAC am i S4C gael "a one-off 10% increase to its mixed public funding from DCMS and the Licence Fee, and for this to be linked to inflation going forward, as the TV Licence Fee itself has now been."

---

<sup>105</sup> Cofnod y Trafodion, para 22, 4 Tachwedd 2015

<sup>106</sup> Ymateb Ymddiriedolaeth y BBC i Bapur Gwyrdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig

<sup>107</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BCR 11

169. Ar 3 Chwefror 2016, cyhoeddodd yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y câi S4C £400,000 yn ychwanegol gan Lywodraeth y Deyrnas Unedig, gan wrth-droi'r flwyddyn gyntaf o doriadau grant arfaethedig. Cyhoeddodd hefyd "adolygiad cynhwysfawr" o gylch gorchwyl, llywodraethiant a chyllid S4C.<sup>108</sup>

170. Ar 17 Chwefror 2016, cafodd S4C gadarnhad gan Ymddiriedolaeth y BBC na fydd ei chyllid o ffi'r drwydded yn cael ei leihau yn 2016-18. Caiff y Sianel £74.5m yn 2016-17 ac yn 2017-18.

### **Llywodraethiant, atebolrwydd a chysylltiadau gweithredol â'r BBC**

171. Mae Awdurdod S4C o dan ddyletswydd i sicrhau bod S4C yn cydymffurfio â'i rhwymedigaethau fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus. Mae'n atebol, yn y lle cyntaf, i Senedd y Deyrnas Unedig, a hefyd i Ymddiriedolaeth y BBC yn sgil y trefniadau ariannu newydd a sefydlwyd yn 2013.

172. Ers y trefniadau ariannu newydd, mae gan Awdurdod S4C ac Ymddiriedolaeth y BBC Gytundeb Gweithredu sy'n diffinio dibenion y caiff cyllid ffi'r drwydded y mae'n ei gael ei ddefnyddio ar eu cyfer. Mae'r Cytundeb Gweithredu ar hyn o bryd yn diogelu annibyniaeth olygyddol a gweithredol S4C. Er hynny, o dan amgylchiadau eithriadol, mae hefyd yn caniatáu i Ymddiriedolaeth y BBC dynnu arian ffi'r drwydded yn ôl oddi wrth S4C.

173. Ym marn S4C, gall y trefniadau hyn "ddarparu atebolrwydd priodol i gorff rheoleiddio'r BBC a gwarcheidwad ffi'r drwydded, tra ar yr un pryd sicrhau parhad annibyniaeth darlledwr gwasanaeth cyhoeddus".

174. Er hynny, pwysleisiodd S4C hefyd bwysigrwydd cael corff sy'n annibynnol ar Weithrediaeth y BBC fel y cyfrwng y darperir arian o ffi'r drwydded i S4C drwyddo. Dywedodd fod bodolaeth corff o'r fath yn helpu i osgoi gwrthdaro rhwng buddiannau'r BBC ei hun a buddiannau darlledwr annibynnol fel S4C. Pwysleisiodd S4C hefyd bwysigrwydd cadw ei hannibyniaeth weithredol a golygyddol ar ôl adnewyddu'r Siarter.

175. Clywsom dystiolaeth gan nifer o ymatebwyr yn gofyn pam nad oedd S4C yn atebol i Lywodraeth Cymru neu'r Cynulliad. Cyflwynodd Equity a BECTU sylwadau ar hyn, gydag Equity'n dweud ei bod yn "absurd that the National

---

<sup>108</sup> [Hysbysiad i'r wasg, yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon, 3 Chwefror 2016](#)

Broadcaster for Wales does not have any formal relationship with the National Assembly”.<sup>109</sup>

176. Roedd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg hefyd yn gofidio ynghylch y trefniadau presennol:

“Nid yw e’n dderbyniol bod adran yn Whitehall gyda Gweinidog sydd ddim yn cynrychioli Cymru yn gwneud penderfyniad ynghylch yr unig sianel Gymraeg.”<sup>110</sup>

177. Galwodd yr Athro Tom O’Malley am i S4C gael ei ailsefydlu “as a separate body, answerable to the Welsh Government”.<sup>111</sup>

### **Cylch gorchwyl a pherfformiad**

178. Fel darlledwr gwasanaeth cyhoeddus, mae S4C o dan ddyletswydd statudol i ddarparu ystod eang o raglenni amrywiol ac o safon, yn ogystal â gwybodaeth, addysg ac adloniant ar gyfer y cyhoedd yng Nghymru.

179. Dywedodd rhai o’r ymatebwyr wrthon ni fod cylch gorchwyl statudol S4C i ddarparu rhaglenni teledu llinellol yn hen ffasiwn ac yn anaddas ar gyfer anghenion darlledu Cymraeg dros y deng mlynedd nesaf. Clywsom fod y cylch gorchwyl anhyblyg hwn yn atal S4C rhag bod yn fwy radicalaidd a dechrau partneriaethau arloesol gyda sefydliadau Cymraeg eraill.

180. Gan hynny, awgrymodd rhai tystion y dylid ailddiffinio S4C fel darparwr cynnwys, yn hytrach na sianel deledu linellol. Roedd S4C ei hun yn cytuno y byddai hyn yn ddymunol.

181. Ar wahân, mae Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi amau gwerth am arian gwasanaethau ar gyfer ieithoedd brodorol pan fo ffigurau'r gynulleidfa’n dirywio ac wedi cyhoeddi ei bod yn bwriadu adolygu darlledu mewn ieithoedd lleiafrifol fel rhan o adolygiad y Siarter.<sup>112</sup> Er hynny, mae S4C wedi dadlau y dylai ei llwyddiant gael ei diffinio y tu hwnt i ffigurau gwyllo, ac y dylai lefelau gwerthfawrogiad ac effaith y sianel ar y Gymraeg a'r economi gael eu cymryd i ystyriaeth hefyd.

182. Mae Llywodraeth Cymru wedi atseinio’r farn hon, gan ddweud ei bod wedi’i siomi’n ddirfawr bod Llywodraeth y Deyrnas Unedig wedi amau gwerth gwasanaethau mewn ieithoedd lleiafrifol mewn termau ariannol yn unig

---

<sup>109</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BRC 04

<sup>110</sup> Cofnod y Trafodion, para 79, 2 Rhagfyr 2015

<sup>111</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BRC 01

<sup>112</sup> Papur Gwyrdd Llywodraeth y Deyrnas Unedig

“without any regard for their cultural or social importance”. Mae Llywodraeth Cymru wedi galw am adolygiad annibynnol o’r bartneriaeth rhwng S4C a’r BBC, “agreed by all parties in the National Assembly”.

183. Dywedodd Cymdeithas yr Iaith Gymraeg mai’r ffordd orau i wella darlledu Cymraeg oedd ehangu gwasanaethau S4C yn hytrach na dibynnu ar y BBC y unig. Cyfeiriodd at ddiffyg gwasanaeth clirlun S4C fel enghraifft o’r methiannau a achosir gan doriadau sylweddol a newidiadau strwythurol. Galwodd am S4C newydd a fyddai’n addas ar gyfer oes o gydgyfeirio a datblygiadau technolegol newydd.<sup>113</sup>

### **Ein barn ni**

184. Mae’r gostyngiadau cyllid o 36 y cant mewn termau real a osodwyd ar S4C ers 2010 wedi bod yn ddifrifol ac yn anghymesur.

185. Yn rhinwedd ei swydd fel yr unig ddarledwr teledu cyhoeddus cyfrwng Cymraeg, mae’n hanfodol bod cyllid S4C yn ddigonol i ateb ei rwymedigaethau ym maes darlledu gwasanaeth cyhoeddus tuag at ei gynulleidfaoedd. Mae’n anodd gweld sut y bydd S4C yn gallu ateb y rhwymedigaethau hyn os yw’n wynebu rhagor o ostyngiadau yn ei chyllideb ar ben yr arbedion effeithlonrwydd y mae eisoes wedi gorfod eu gwneud. Yn wir, rydym yn pryderu y gallai’r angen i ddod o hyd i arbedion ychwanegol yn y dyfodol roi pwysau annioddefol ar y sianel.

186. O gofio graddfa’r toriadau cyllid a gafwyd hyd yn hyn, rydym o’r farn ei bod yn hanfodol bod cyllid S4C yn y dyfodol yn cael ei gynnal ar y lefelau presennol o leiaf. Ymhellach, rydym yn credu y dylai anghenion ariannol S4C yn y dyfodol gael eu hystyried ar sail eu teilyngdod eu hunain, ac nid fel rhan o ddarpariaeth gwasanaethau cyffredinol y BBC ar gyfer Cymru. Byddai trefniant o’r fath yn adlewyrchu’r gwerthfawrogiad i’r sianel a fynegwyd gan ei chynulleidfaoedd, yn ogystal â’i heffaith gadarnhaol ar y Gymraeg a’r economi.

187. Mae angen i annibyniaeth weithredol a golygyddol barhaus S4C ar Weithrediaeth y BBC gael ei gwarantu. I gyflawni hyn, dylid diffinio a diogelu trefniadau ariannu S4C yn y dyfodol. Gallai sianelu cyllid S4C o ffi'r drwydded drwy Lywodraeth Cymru fod yn ddull effeithiol o gyflawni hyn. Yn y tymor hirach, rydym yn credu ei bod yn werth ystyried fformiwla ariannu ar gyfer y Sianel.

---

<sup>113</sup> Tystiolaeth ysgrifenedig, BRC 14

188. O ran cylch gorchwyl statudol S4C, rydym yn credu bod hyn wedi bod yn ffactor sy'n cyfyngu gallu'r Sianel i arloesi ac ymateb i anghenion mwyfwy amrywiol ei chynulleidfaoedd. Gan hynny, nid yw'r cylch gorchwyl yn addas mwyach ar gyfer gofynion darlledu Cymraeg yn y tymor hir. Rydym yn cefnogi'r galwadau am ailddiffinio cylch gorchwyl S4C fel darparwr cynnwys.

189. O ran trefniadau atebolrwydd, rydym yn nodi bod S4C yn atebol ar hyn o bryd i'r Senedd (o dan y statud) ac i Ymddiriedolaeth y BBC (drwy Gytundeb Gweithredu). Rydym yn credu ei bod yn werth ffurfioli'r llinellau atebolrwydd rhwng S4C a'r Cynulliad, ac y gallai hyn ei wneud drwy gyflwyno trefniadau i S4C gyflwyno adroddiadau blynyddol a chyfrifon archwiliedig i'r Cynulliad. Rydym o'r farn y gellid datblygu Cytundeb neu Femorandwm Cydddealltwriaeth at y diben hwn.

190. Rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar yr Ysgrifennydd Gwladol dros Ddiwylliant, y Cyfryngau a Chwaraeon y bydd Llywodraeth y Deyrnas Unedig yn cynnal adolygiad cynhwysfawr o gylch gorchwyl, llywodraethiant a chyllid S4C yn 2017. Rydym hefyd yn croesawu ei benderfyniad i ddarparu £400,000 yn ychwanegol o arian i'r sianel yn 2016-17, a'r sicrwydd y mae hynny'n ei roi i S4C at y dyfodol. Ymhellach, rydym yn croesawu cyhoeddiad diweddar Ymddiriedolaeth y BBC y bydd yn cynnal cyllid S4C o ffi'r drwydded ar y lefelau presennol tan 2018.

**Fel rhan o adolygiad Llywodraeth y Deyrnas Unedig o gylch gorchwyl, llywodraethiant a chyllid S4C, rydym yn argymhell y dylai anghenion ariannol ariannu S4C yn y dyfodol gael eu hystyried ar sail eu teilyngdod eu hunain, ar wahân i ddarpariaeth gwasanaethau cyffredinol y BBC ar gyfer Cymru.**

**Rydym yn argymhell y dylai llinellau atebolrwydd rhwng S4C a'r Cynulliad gael eu ffurfioli drwy gytundeb a fydd yn rhwymo S4C i gyflwyno adroddiadau blynyddol a chyfrifon archwiliedig i'r Cynulliad, ac i ymddangos gerbron pwyllgorau Cynulliad.**



## Atodiad: Ein hymchwiliad

---

191. Ar 24 Medi 2015, cytunodd y Pwyllgor i gynnal ymchwiliad i'r adolygiad o Siarter y BBC.

### Cylch gorchwyl

192. Cytunodd y Pwyllgor ar y cylch gorchwyl a ganlyn ar gyfer yr ymchwiliad:

Ystyried goblygiadau'r adolygiad o Siarter y BBC o ran Cymru, gan roi sylw penodol i'r canlynol:

- Y gwasanaethau y bydd y BBC yn eu darparu yn y dyfodol, yn y Gymraeg a'r Saesneg;
- Y trefniadau ar gyfer ariannu, llywodraethu a sicrhau atebolrwydd y BBC, yn awr ac yn y dyfodol, o safbwynt Cymru;
- Dyfodol S4C, gan gynnwys y trefniadau ar gyfer ariannu, gweithredu a llywodraethu'r sianel, a'r gwasanaethau y mae'n eu darparu;
- Sut y caiff buddiannau Cymru eu cynrychioli yn ystod y broses adnewyddu.

### Dull gweithredu

193. Rhwng 25 Medi 2015 a 30 Hydref 2015, cynhaliodd y Pwyllgor ymgynghoriad cyhoeddus i gasglu gwybodaeth ar gyfer ei waith, yn seiliedig ar y cylch gorchwyl y cytunwyd arno. Derbyniwyd 20 o [ymatebion](#) a chawsant eu cyhoeddi ar wefan y Cynulliad.

194. Yn ogystal â hyn, cynhaliodd y Pwyllgor sesiynau tystiolaeth lafar gyda nifer o dystion. Mae'r [dystiolaeth lafar](#) i'w gweld ar wefan y Pwyllgor.

195. Hoffai'r Pwyllgor ddiolch i'r rhai a gyfrannodd at yr ymchwiliad.